Cronfa
Swansea University's Research Repository

# 'Y Bardd a'i Gyfrol':

## Beth yw prif nodweddion cyfrol safonol o farddoniaeth?

Traethawd yn gyflwynedig i Brifysgol Abertawe ar gyfer y radd Meistr yn y Celfyddydau yn Adran y Gymraeg, Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau.

Matthew Kerrith Tucker

Rhif myfyriwr: [redacted]

Dyddiad cyflwyno: Medi'r 30ain 2020



Copyright: The author, Matthew K. Tucker, 2020.

# DIOLCHIADAU

Carwn estyn diolch i nifer o bobl sydd wedi fy nghefnogi'n ddi-baid trwy gydol fy nghyfnod astudio wrth imi ymgymryd â'r prosiect ymchwil hwn.

Bûm yn ffodus iawn i weithio o dan oruchwyliaeth dau Athro-Brifardd profiadol a gwybodus yn ystod y cyfnod.

Mae'r diolch cyntaf yn mynd i'm prif oruchwyliwr, yr Athro Tudur Hallam, am ei gefnogaeth a'i arweiniad trwy gydol fy ymchwil a'm hastudiaethau. Diolch yn bennaf iddo am ei adborth a'i anogaeth i ddyfalbarhau gyda'r gwaith academaidd a chreadigol.

Diolch hefyd i'm hail oruchwyliwr, yr Athro Alan Llwyd, am gael trafod crefft barddoniaeth Gymraeg mewn cryn fanylder, ac am roi'r broses greadigol ar waith yn ystod ein sesiynau.

Roedd yn brofiad arbennig imi fod yn aelod o Gymdeithas Ysgrifennu Creadigol yr Adran Gymraeg, ac rwy'n diolch i'm cyd-aelodau am eu hadborth ar fy ngwaith creadigol yn ein cyfarfodydd yn ystod fy nghyfnod astudio.

Mae diolch arall yn mynd i staff a'm cyd-fyfyrwyr yn yr Adran Gymraeg am eu parodrwydd i'm cefnogi. Roedd eu hadborth yn symposiwm flynyddol yr Adran yn fanwl iawn, ac yn cynnig golwg newydd i mi ynghylch fy ymchwil.

Hoffwn ddiolch i bawb a oedd wedi cyfrannu tuag at f'ymchwil, yn enwedig y beirdd a oedd mor barod i fynd ati'n drylwyr i ateb y toreth o gwestiynau a ofynnwyd gennyf.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'm teulu am eu cefnogaeth a'u hamynedd trwy gydol f'astudiaethau ac wrth imi ymgymryd yn ddwys â'r prosiect hwn.

## CYHOEDDIAD

Nid yw'r gwaith hwn wedi'i dderbyn o'r blaen yn gyffredinol ar gyfer unrhyw radd ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisyddiaeth ar gyfer unrhyw radd.

Llofnod: Matthew Kerrith Tucker (ymgeisydd)

Dyddiad: 26.09.2020

## DATGANIAD 1

Canlyniad fy ymchwiliadau fy hun yw'r traethawd ymchwil hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol.

Cydnabyddir ffynonellau eraill drwy droednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau amlwg.  Atodir llyfryddiaeth.

Llofnod: Matthew Kerrith Tucker (ymgeisydd)

Dyddiad: 26.09.2020

## DATGANIAD 2

Trwy hyn, rhoddaf ganiatâd i'm traethawd ymchwil, os caiff ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopïo ac i'w fenthyca rhwng llyfrgelloedd, ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod: Matthew Kerrith Tucker (ymgeisydd)

Dyddiad: 26.09.2020

# CRYNODEB

Mae'r traethawd hwn yn archwilio'r elfennau sydd yn esgor ar gyfrol o farddoniaeth safonol yn y Gymru fodern, gan geisio mynd ati i nodi'r egwyddorion pwysicaf ar gyfer mynd ati i lunio cyfrol safonol o ran ei chynnwys, ei dyluniad a'i ffurf. Bydd yr ymchwil yma yn gynsail i mi yn bersonol ar gyfer llunio cyfrol estynedig o farddoniaeth yn y dyfodol.

Rhennir fy ngwaith yn dair rhan, gyda'r ddwy ran gyntaf yn seiliedig ar fy ngwaith ymchwil a'r drydedd ran yn ffolio o gerddi gwreiddiol sy'n ymdrin ag amrywiaeth o brofiadau ac ymatebion personol.

Yn gyntaf, yn dilyn fy nghyflwyniad, ceir pennod yn dadansoddi canlyniadau fy holiadur barddol, a ddosbarthwyd i 40 o feirdd sydd yn barddoni trwy gyfrwng y Gymraeg, ynghyd â'm cyfweliadau gyda beirdd unigol.

Yn yr ail ran, ceir pennod yn cyflwyno fy mhrif astudiaeth ymchwil. Yn yr astudiaeth hon, trafodaf yn fanwl ragoriaethau un o gyfrolau barddoniaeth mwyaf eiconig yr ugeinfed ganrif, sef *Dail Pren* a gyhoeddwyd gan Waldo Williams yn 1956. Rhoddir sylw penodol i ddwy elfen o gymeriad barddol Waldo, sef y 'meddyliwr' a'r 'crefftwr' a'r modd yr ymddangosant yn ei farddoniaeth. Ceir dadansoddiad cyffredinol o'r elfennau yn ei waith cyn imi droi at y gerdd 'Y Plant Marw'. Cymhwysaf elfen fywgraffyddol hefyd fel cynsail a chefndir i'r drafodaeth ar farddoniaeth Waldo.

Yn atodol i'r traethawd, ceir prif ran y traethawd MA, sef ffolio o gerddi amrywiol a luniwyd gennyf yn ystod y cyfnod o astudio, casgliad sydd yn gweithredu ar yr hyn yr wyf wedi'i astudio a'i ganfod trwy gyfrwng fy ymchwil. Ceir rhagair adfyfyriol ar ddechrau'r ffolio sydd yn trafod fy mhroses greadigol ac sydd yn cyflwyno trosolwg o'r cerddi.

*Mae'r traethawd hwn yn gyflwynedig i fy nyweddi, Ebony. Nid oes digon o eiriau i ddangos fy nyled iddi am ei chefnogaeth a'i chyngor doeth wrth imi weithio ar y prosiect hwn. Diolch iddi am fod yn ysbrydoliaeth imi!*

**‘Y Bardd a’i Gyfrol’: Beth yw prif nodweddion cyfrol safonol o farddoniaeth?**

Matthew Kerrith Tucker

**Cynnwys** **Tudalen**

Cyflwyniad .......................................................................................................... **7**

**Pennod 1:** Dadansoddi’r ymchwil cynradd: holiadur a chyfweliadau .......................... **9-22**

**Pennod 2:** Astudiaeth: dadansoddi a gwerthfawrogi elfennau o gyfrol Gymraeg boblogaidd o’r ugeinfed ganrif: *Dail Pren* gan Waldo Williams .....................................................**23-57**

**Ffolio o gerddi gwreiddiol –** ‘Myfyrio a Chreu’ ........................................................ **58-96**

**Llyfryddiaeth** .......................................................................................................... **97-99**

## CYFLWYNIAD

Nid yw'n gyfrinach fod y traddodiad barddol Cymreig yn draddodiad cyfoethog iawn, un o draddodiadau hynaf Ewrop. Yn ei lyfr *Y Traddodiad Barddol*, dywed Gwyn Thomas mai yn y 6ed ganrif y ceir y cyfeiriad cyntaf at feirdd Cymraeg, sef dros fil a phump cant o flynyddoedd yn ôl erbyn heddiw.[1] Mae'r traddodiad Cymreig hanesyddol yn un llafar iawn, trwy gyfrwng beirdd llys ein canu cynharaf (Taliesin ac Aneirin) a thrwy gyfnodau Beirdd y Tywysogion (gan gynnwys gwaith Cynddelw Brydydd Mawr a Gruffudd ab yr Ynad Coch) a Beirdd yr Uchelwyr (Dafydd ap Gwilym a'r Cywyddwyr), ac mae'r elfen lafar yn dal yn gryf hyd heddiw trwy gyfrwng cyfres Talwrn y Beirdd, ymrysonau'r Eisteddfod Genedlaethol a nosweithiau cymdeithasol megis Bragdy'r Beirdd.

Er hynny, mae'n siŵr mai prif gyfrwng ein barddoniaeth dros y ganrif neu ddwy ddiwethaf yw'r gyfrol brint, gan gyflwyno elfen fwy darllengar i'r traddodiad. Yn y gymdeithas dechnolegol sydd ohoni heddiw, cyhoeddir cyfrolau print o farddoniaeth yn gyson yn flynyddol, ond, ceir defnydd o gyfryngau amrywiol gan feirdd erbyn hyn. Gwelir mwy o gynnyrch yn cael ei gyhoeddi ar-lein ac mewn e-gyfrolau, megis gwefan personol bardd (er enghraifft Eurig Salisbury[2]) neu gylchgrawn llenyddol digidol (megis *Y Stamp*[3]). Ond eto, mae'r beirdd hynny sydd yn cyhoeddi trwy gyfrwng y cyfryngau uchod yn dal i ddewis cyhoeddi'u gwaith yn brintiedig, boed trwy gyhoeddi cyfrol estynedig neu gerddi unigol mewn cylchgronau llenyddol megis *Barddas*, *Y Stamp* a mwy. Gwelir hefyd fwy o feirdd yn troi at lunio pamffledi byrion o gerddi yn fwy diweddar. Yn ogystal â hynny, un o brif wobrau Llenyddiaeth Cymru yw Llyfr y Flwyddyn, sy'n cynnwys categori ar gyfer

---

[1] Thomas, G. (1976). *Y Traddodiad Barddol*. Gwasg Prifysgol Cymru: Caerdydd. (t.19).
[2] Salisbury, E. (2019). *eurig salisbury – Cerddi/Poems*. (ar-lein) Ar gael: https://www.eurig.cymru/ (Mynediad ar 27 Medi 2019).
[3] Lewis, E., Muse, E. et al. (goln) (2019). *Cylchgrawn Y Stamp*. (ar-lein) Ar gael: https://www.ystamp.cymru/ (Mynediad ar 27 Medi 2019).

barddoniaeth brint. Dengys hyn yr amrywiaeth o gyfryngau a ddefnyddir gan feirdd erbyn heddiw.

Ond, beth sy’n peri i gyfrol gyrraedd safon a glodforir gan feirniaid a darllenwyr? Yn y traethawd hwn, archwiliaf amrywiaeth o elfennau sydd yn cyfrannu at hynny ac a fydd yn fy ngalluogi i ateb fy mhrif gwestiwn ymchwil, sef ‘Beth yw nodweddion cyfrol safonol o farddoniaeth?’.

## Pennod 1. Dadansoddi'r Ymchwil Cynradd: Holiadur a Chyfweliadau

Wrth ymgymryd â'r prosiect hwn, es ati i wneud defnydd o ddulliau ymchwil cynradd, yn benodol ar ffurf holiadur barddol ac amryw gyfweliadau gyda beirdd adnabyddus.[4] Bwriad y bennod hon yw dadansoddi'r ymatebion a gasglwyd gennyf, gan dynnu fy mhrif gasgliadau ohonynt er mwyn eu trafod mewn mwy o fanylder.

Ar adegau, cysylltaf fy nghanfyddiadau gydag elfennau o drafodaeth ar Waldo Williams, ac yn benodol ei gyfrol, *Dail Pren*, gan ystyried ei pherthynas gyda chyfrolau Cymraeg eraill. Y rhesymeg dros ddewis Waldo a *Dail Pren* oedd oherwydd daethant i'r brig pan ofynnwyd i gyfranwyr yr holiadur nodi pwy oedd ei hoff fardd a beth oedd eu hoff gyfrol.

Dosbarthwyd yr holiadur i 40 o feirdd o Gymru sydd yn barddoni trwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir amrywiaeth fawr ymhlith y beirdd a holwyd o ran eu rhyw, oedran a lleoliad daearyddol. Roedd y cyfranwyr yn amrywio o brifeirdd Cadair a Choron yr Eisteddfod Genedlaethol (gydag ambell brifardd dwbl yn eu plith) i feirdd ifanc sydd wrthi'n eu sefydlu'u hunain o fewn y gymuned farddol. Gofynnwyd am ymatebion gan feirdd cyhoeddedig ynghyd â beirdd nad ydynt wedi cyhoeddi cyfrol o farddoniaeth. Ymatebodd y beirdd cyhoeddedig o brofiad, ond roeddwn yn awyddus hefyd i glywed barn yr ail garfan a'u canfyddiadau o nodweddion cyfrol safonol.

Nodaf fod y dulliau ymchwil uchod, yr holiadur a'r cyfweliadau, yn cynnig data defnyddiol er mwyn eu dadansoddi, ond gellir cydnabod eu bod yn oddrychol ac yn bersonol o ran eu natur.

[4] Dyma restr o'r cyfweliadau yn y drefn a drafodir hwy yn ystod y traethawd:

1. Tudur Dylan Jones; Ionawr 28ain 2019.
2. Aneirin Karadog; Ionawr 28ain 2019.
3. Eurig Salisbury; Mehefin 9fed 2019.
4. Elan Grug Muse; Ebrill 12fed 2019.

Atebwyd yr holiadur yn ddienw gan y beirdd, ac felly ymdrinnir â'u hymatebion yn ddienw yn unol â chanllawiau'r *British Education Research Association (BERA)* ynglŷn â phreifatrwydd.[5] Pan gyfeirir yn uniongyrchol at ymatebion cyfranwyr, gwnaed hynny wedi imi dderbyn eu caniatâd ymlaen llaw. Talgrynnir pob canran i'r rhif cyfan agosaf wrth drafod data nifer o gwestiynau'r holiadur yn y drafodaeth isod.

Roedd cwestiwn 3 yn ystyried yr ardal yr oedd y cyfranwyr yn eu cysylltu eu hunain â hi yn bennaf. Atebodd 40% ohonynt (16 o'r 40 cyfrannwr) mai ardal Gwynedd oedd yr ardal y cysylltent eu hunain â hi fwyaf. Roedd hyn yn uwch o lawer na'r ardaloedd eraill, yn uwch o lawer na'r ail a'r drydedd ardal fwyaf poblogaidd ar y rhestr, sef Caerdydd (6) a Sir Gaerfyrddin (5). Golyga hyn fod dau draean (27 o'r 40) o'r cyfranwyr yn deillio o'r tair ardal hon. Ystyrir Gwynedd a Sir Gaerfyrddin (a fu'n rhan o hen dalaith y Deheubarth) fel siroedd ac iddynt draddodiadau barddol hanesyddol. Gall hyn awgrymu fod ymatebion y beirdd hyn yn deillio o safbwyntiau mwy traddodiadol, a cheidwadol efallai, oherwydd eu bod yn perthyn i linach sydd â syniadaeth benodol am 'grefft'. Ar y llaw arall, ceir traddodiadau barddol mwy modern a dinesig yng Nghaerdydd, er enghraifft, yn sgil mewnfudiad a phresenoldeb y Gymraeg yno. Wrth drafod hanes barddol Sir Gaerfyrddin yn ei rhagair i'r gyfrol *Cerddi Sir Gâr*, dywed Bethan Mair:

> Mae'r sir yn gyfoethog o leoliadau barddol enwog – Rhydcymerau, er enghraifft a'r Gellir Aur. O ran ei chymeriadau, mae'r chwaraewyr rygbi a'r emynwyr yn derbyn sylw haeddiannol, ynghyd â'r arwyr hanesyddol, o Wenllian ddewr i deulu Gwynfor Evans.[6]

---

[5] British Educational Research Association (BERA). (2018). *Ethical Guidelines for Educational Research*. 4ydd arg. Llundain.

[6] Mair, B. (gol). (2004). *Cerddi Sir Gâr*. Gwasg Gomer: Llandysul. (tud. xii)

Roedd y cyfranwyr eraill yn cysylltu eu hunain â'r ardaloedd canlynol: Abertawe, Conwy a Rhondda Cynon Taf (2 yr un) a Chaerffili, Castell-nedd Port Talbot, Ceredigion, Merthyr Tudful, Sir Benfro, Sir Ddinbych a Wrecsam (1 yr un).

Yn bersonol, dechreuais farddoni yn fyfyriwr yn y Chweched Dosbarth dan ddylanwad astudio Cymraeg ar gyfer Safon Uwch. Cefais lu o gyfleoedd i ddatblygu fy nghrefft ymhellach tra oeddwn yn astudio'r Gymraeg yn y brifysgol trwy gyfrwng astudio nifer o fodiwlau llenyddol a llunio casgliad o gerddi ynghyd â thraethawd adfyfyriol ar grefft ar gyfer fy nhraethawd hir. Golyga hyn fod barddoniaeth yn amlwg iawn yn fy mywyd academaidd, yn ogystal â'm bywyd bob dydd. Roedd sawl cwestiwn yn yr holiadur yn archwilio presenoldeb barddoniaeth ym mywydau'r cyfranwyr.

Diddorol oedd canfod yng nghwestiwn 4 fod 62.5% o'r cyfranwyr wedi astudio'r Gymraeg fel pwnc yn y brifysgol tra oedd 50% wedi'i hastudio ar gyfer Safon Uwch. Teg dweud bod y cyfranwyr hynny wedi profi apêl lenyddol eu cyrsiau academaidd, a bod eu diddordeb mewn barddoniaeth wedi tarddu ohonynt neu wedi'i ddyfnhau o'r herwydd. Nododd 17.5% nad oeddent wedi astudio'r Gymraeg ar gyfer Safon Uwch neu'n y brifysgol, ac felly rhaid mai ffactorau y tu hwnt i'r rhai academaidd a oedd wedi esgor ar eu diddordeb mewn barddoniaeth, er enghraifft mwynhad personol, arfer teuluol neu weithgarwch cymdeithasol a diwylliannol megis ymweld ag eisteddfodau, talyrnau a digwyddiadau barddol eraill.

Ar gyfer cwestiwn 5, rhoddais restr o dermau llenyddol gerbron y cyfranwyr gan ofyn iddynt nodi'r term a oedd yn eu disgrifio orau. Derbyniais amrywiaeth o ymatebion, a dyma eu rhestru o'r mwyaf i'r lleiaf o ran eu nifer:

1. Bardd – 34%
=2. Awdur – 18%
=2. Llenor – 18%
4. Person sy'n barddoni – 16%

5. Cynganeddwr – 12%
6. Talyrnwr – 2%*

(*Talgrynnir y canrannau i'r rhif cyfan agosaf.)

Holiadur barddol oedd hwn, ond dim ond tua thraean o'r cyfranwyr sydd yn eu hystyried eu hun yn 'feirdd'. Yn fy marn i, gellid cysylltu'r termau 'awdur' a 'llenor' i gefndir mwy rhyddieithol, ond, beth am y sawl a ddewisodd y termau 'person sy'n barddoni', 'cynganeddwr' a 'talyrnwr', sef 30% o'r cyfranwyr? Beth sydd yn peri iddynt osgoi arddel y term 'bardd'?

Ystyriwyd y cwestiwn hwn yn y gorffennol gan Tudur Hallam yn yr ysgrif 'Beth sy'n gwneud bardd *yn* fardd?'. Dyma oedd ei ateb ef ar y pryd: 'O geisio ateb cryno i'r cwestiwn, fy nghynnig i fyddai, mewn gair – sylw: cyhoeddusrwydd, amlygrwydd, os nad dylanwad cymdeithasol'[7]. Cyfeiriodd Tudur Hallam at Ifor ap Glyn a Tudur Dylan Jones fel enghreifftiau o ddau brifardd nad oeddent yn teimlo eu bod hyd yn oed yn medru arddel y term 'bardd'.[8] Dal i lynu a wna Tudur Dylan Jones wrth y gred honno hyd heddiw oherwydd dywedodd wrthyf, pan oeddwn yn cyfweld ag ef, mai 'rhywbeth i rywun arall benderfynu ydy a yw rhywun yn fardd neu beidio'.[9] Eto, gwelir yma'r un parchedig ofn yn cael ei fynegi at yr enw 'bardd'.

Teimlaf y gall yr ateb uchod weddu i'r '30%' nad ydynt yn eu hystyried eu hunain yn 'feirdd'. Ai oherwydd nad ydynt wedi derbyn y 'sylw' y cyfeiria Tudur Hallam ato y maent yn ymatal rhag eu galw eu hunain yn 'feirdd'? Ai diffyg hyder yn eu gallu hwy eu hunain ydyw'r rheswm? Wrth ystyried 'sylw' fel elfen allweddol o ran yr hyn sy'n peri i un fod yn 'fardd', gwerth yw nodi, yn fy marn i, fod bron i 30% o'r cyfranwyr wedi nodi nad oeddent

[7] Hallam, T. (2000). *Taliesin, Cyf.108*. Yr Academi Gymreig: Caerdydd. (t.28)
[8] Hallam, T. (2000). *Taliesin, Cyf.108*. Yr Academi Gymreig: Caerdydd. (t.14).
[9] T.D., Jones. Cyswllt Personol. Ionawr 28ain 2019. Mewn ymateb i'r cwestiwn 'A oes angen cyhoeddi cyfrol cyn arddel y term 'bardd'?'

wedi ennill gwobr genedlaethol (megis Cadair neu Goron yr Eisteddfod Genedlaethol na Chadair Eisteddfod yr Urdd) neu wobr leol (megis Cadair Eisteddfod Leol) ar gyfer cwestiwn 6 yr holiadur. Awgryma sylw Tudur Dylan Jones fod ambell brifardd hefyd yn amharod i arddel y label 'bardd', ond mae'r gyfatebiaeth ystadegol hon yn ddiddorol, mi gredaf.

Roedd cwestiynau 7 ac 8 eto yn archwilio presenoldeb barddoniaeth ym mywydau'r cyfranwyr. Ar gyfer cwestiwn 7, nododd 55% eu bod yn aelodau o dimau talwrn, ac felly'n ymwneud â thraddodiad llafar y gymuned farddol Gymraeg yn ogystal â'r traddodiad cyfrolaidd. Cânt hefyd gyfleoedd i fireinio crefft trwy dderbyn adborth uniongyrchol oddi wrth feirniad canolog a chynulleidfaoedd byw ynghylch safon cerdd. Cyfeiria Gruffudd Owen at hyn gan ddweud bod 'cynulleidfa yn gorfodi rhywun i fireinio'i grefft'.[10] Credaf fod hyn yn awgrymu bod y broses rhyngweithiol rhwng bardd a'i gynulleidfa yn rhan o gynhyrchu, mesur a dehongli 'safon' cerdd. Yn sefyllfa'r Talwrn, ceir ymateb gan gynulleidfa (boed trwy gymeradwyo, chwerthin neu ochneidio) yn ogystal â marc allan o 10 gan y Meuryn.

Felly, gellir dweud bod y beirdd hyn yn medru sefydlu mwy o bersonoliaeth farddol a chyhoeddusrwydd iddynt hwy eu hunain yn sgil y cyfrwng hwn. Felly, a olyga hyn fod y 45% nad ydynt yn aelodau o dimau talwrn yn gorfod gweithio'n galetach er mwyn mireinio crefft a safon eu gwaith? Ar un ogwydd, ydy, oherwydd absenoldeb yr adborth awtomatig, ond credaf fod ganddynt hefyd fwy o ryddid i ganfod a derbyn adborth oddi wrth amrywiaeth o feirniaid. Gwelwyd yn ddiweddar sut y llwyddodd *Y Stamp* i gynnig llwyfan newydd i feirdd, gan gyhoeddi gwaith gan feirdd newydd.

Wrth ateb cwestiwn 8, nododd 80% o'r cyfranwyr eu bod yn darllen y cylchgrawn *Barddas*. Mae'r cylchgrawn a'r gymdeithas hon yn ffynhonnell bwysig o'r gweithgarwch barddol

[10] Owen, G. (2020). Y Grefft o Dalyrna. Yn: *Dathlu'r Talwrn: Pigion ac Atgofion*. Cyhoeddiadau Barddas: Tal-y-bont. (t.63).

Cymraeg. Gellir darllen cerddi, colofnau gan feirdd ar farddoneg gyfoes ynghyd ag adolygiadau ar gyfrolau Cymraeg. Mae'r elfen olaf, sef yr adolygiadau, yn bwysig i'r astudiaeth hon oherwydd gellir sylwi ar yr elfennau a'r grefft sydd yn cyfrannu tuag at gyfrol o safon. Gellir hefyd nodi pwysigrwydd *Barddas* trwy nodi bod 77% o'r cyfranwyr wedi ateb eu bod wedi cyhoeddi cerdd yn y cylchgrawn ar gyfer cwestiwn 12. Cymharer hynny gyda 62% yn *Golwg* a 46% sydd wedi cyhoeddi cerdd mewn unrhyw bapur newydd. Nododd 8% nad ydynt erioed wedi cyhoeddi cerdd.

Roedd cyfres o gwestiynau'r holiadur yn benodol ar gyfer y beirdd a oedd wedi cyhoeddi cyfrolau o farddoniaeth, sef 55% o'r cyfranwyr, a hynny oherwydd testun y traethawd ymchwil. Roedd y cwestiynau hyn yn archwilio elfennau penodol megis y prif ysgogiad dros lunio'r gyfrol, y nifer o gerddi a gynhwysir yn y cyfrolau a hyrwyddiad y cyfrolau.

Nododd 50% mai 'awydd personol i gyhoeddi' oedd y prif reswm dros lunio a chyhoeddi'r gyfrol. Awgryma hyn awch y beirdd i berchnogi eu gwaith a chymryd cyfrifoldeb dros ei rannu â'r byd. Yn wahanol i hynny, nododd 33% mai 'cais gan wasg gyhoeddi' oedd y prif ysgogiad. Erys y cymhelliad personol felly'n gonglfaen ar gyfer y diwydiant cyhoeddi barddol.

Roedd cwestiwn 19 yn ystyried y nifer o gerddi a gynhwyswyd yng nghyfrolau'r beirdd, ac yr oedd y niferoedd yn amrywiol iawn:

20 neu lai = 9%
21-40 = 26%
41-60 = 22%
61-80 = 30%
81+ = 13%

Credaf ei fod yn beth iachus iawn fod cyfrolau amrywiol yn cael eu cyhoeddi gan feirdd o amryw oedrannau: beirdd hŷn, profiadol a phrentisfeirdd. Amlyga'r ystadegau gryn

amrywiaeth yn natur casgliadau'r cyfrolau. Cymharer, er enghraifft, *Cyrraedd a Cherddi Eraill* gan Alan Llwyd[11] a *Rhwng y Llinellau* gan Christine James[12] â chyfrolau'r gyfres *Tonfedd Heddiw*, sef cyfrolau beirdd megis Grug Muse, Guto Dafydd a Llŷr Gwyn Lewis.

Dwy gyfrol hir gan feirdd profiadol ydyw'r ddwy gyfrol gyntaf uchod. Ceir 116 o gerddi yng nghyfrol Alan Llwyd a 72 cerdd yng nghyfrol Christine James. Dyma ddau brifardd sydd wedi ymroi i wneud cyfraniad sylweddol i academia a llenyddiaeth Gymraeg, ac felly wedi mireinio a datblygu'u crefft yn fanwl iawn. Canlyniad hyn oedd cyfrolau swmpus sydd yn medru tynnu ar lawer iawn o brofiadau. Dyma hefyd ddwy gyfrol a oedd yn fuddugol yng nghategori barddoniaeth cystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn.

Ystyrir yn awr y cyfrolau *Ar Ddisberod* gan Grug Muse[13], *Ni Bia'r Awyr* gan Guto Dafydd[14] a *Storm ar Wyneb yr Haul* gan Llŷr Gwyn Lewis.[15] Dyma dair cyfrol gan feirdd ifanc a oedd yn cyhoeddi eu cerddi am y tro cyntaf, ond beirdd ydynt sydd wedi profi llwyddiant mewn eisteddfodau ar raddfa genedlaethol, ac felly wedi eu sefydlu eu hunain eisoes. Cyfrolau byrrach ydynt, ceir 33 cerdd yn *Ar Ddisberod*, 47 yn *Ni Bia'r Awyr* a 32 yn *Storm ar Wyneb yr Haul*, ond cyfrolau sydd wedi derbyn llawer o sylw ers eu cyhoeddi.

Cyrhaeddodd *Storm ar Wyneb yr Haul* restr fer categori barddoniaeth Llyfr y Flwyddyn yn 2015, ac mae'n siŵr y bydd y beirdd hyn yn ymgiprys am wobrau o safon cenedlaethol yn y dyfodol. Ymddengys fod yna alw am y math hwn o gyfrol fer heddiw. Cyfrol o'r fath, a gyhoeddwyd gan Y Stamp, a enillodd gategori barddoniaeth Llyfr y Flwyddyn yn 2020, sef *Hwn ydi'r llais, tybad?* gan Caryl Bryn.[16] Credaf fod hon yn gyfrol sydd yn awgrymu newid pellach i'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru wrth iddi gael ei chyhoeddi'n amlgyfrwng

[11] Llwyd, A. (2018). *Cyrraedd a cherddi eraill*. Cyhoeddiadau Barddas: Aberystwyth.
[12] James, C. (2013). *Rhwng y Llinellau*. Cyhoeddiadau Barddas: Aberystwyth.
[13] Muse, E.G. (2017). *Ar Ddisberod*. Cyhoeddiadau Barddas: Llandybïe.
[14] Dafydd, G. (2014). *Ni Bia'r Awyr*. Cyhoeddiadau Barddas: Llandybïe.
[15] Lewis, Ll.G. (2014). *Storm Ar Wyneb Yr Haul*. Cyhoeddiadau Barddas: Llandybïe.
[16] Bryn, C. (2019). *Hwn ydy'r llais, tybad?*. Cyhoeddiadau'r Stamp : Caernarfon.

mewn print, yn ddigidol ac ar ffurf recordiad CD. Gwelir hefyd fod y gyfrol yn pontio bydoedd llenyddiaeth a cherddoriaeth mewn modd effeithiol ac arwyddocaol a all fod yn llwybr i sawl bardd arall yn y dyfodol.

Gofynnwyd i'r beirdd sut y mae disgrifio'u cyfrolau yn y ffordd orau, a nododd 68% mai 'casgliad o gerddi a gyfansoddwyd ar wahân i'w gilydd dros gyfnod o amser' ydyw'r cyfrolau. Credaf y bydd fy nghasgliad i yn cwympo i'r categori hwn wrth imi gynnwys nifer o gerddi a luniwyd ar adegau gwahanol yn ystod fy nwy flynedd o ymchwilio ac ysgrifennu. Cerddi'n archwilio themâu a thestunau gwahanol ydynt er mwyn mynd i'r afael â nifer o brofiadau amrywiol, fel y mwyafrif o'r cyfrolau a gyhoeddwyd yng Nghymru. Nododd 23% mai 'cerddi sy'n archwilio un brif thema' yw'r disgrifiad gorau i'w cyfrolau, tra dywedodd 9% mai 'cerddi sy'n ymateb i brofiad penodol e.e. teithio' ydynt. Mae hyn yn fy arwain ymlaen at gwestiwn 21, sef 'A oedd cyfuno gwahanol fathau o gerddi yn eich cyfrol yn bwysig i chi?'. Atebodd 83% ei bod yn bwysig gwneud hynny, a chynigiwyd nifer o resymau yn esbonio pam. Un rheswm a roddwyd gan un cyfrannwr oedd er mwyn 'dangos y dwys a'r digri ac ymatebion i wahanol ddigwyddiadau bywyd'. Nid dim ond ar gyfer y cyfrolau o gerddi amrywiol yr oedd yn bwysig cyfuno cerddi gwahanol, ond 'er mwyn cyfoethogi'r pwyslais ar un thema' yn ôl cyfrannwr arall. Yr ymateb a ddenodd fy sylw fwyaf oedd hwn:

> Mae'n braf i'r darllenydd brofi amrywiaeth o ffurfiau, dulliau a chyweiriau, ac mae hynny'n adlewyrchu'r ffaith 'mod i'n gweithio cerddi i gynulleidfaoedd ac achlysuron amrywiol.

Hoffaf y modd y mae'r cyfrannwr hwn yn meddwl am ymateb y darllenydd i'w waith wrth iddo fyfyrio ac ysgrifennu. Fel y nodais yn flaenorol, roedd yn bwysig imi archwilio a chynnwys gwahanol fathau o gerddi yn fy nghasgliad innau, boed o ran themâu, mesurau a'r cynnwys.

Yn nes ymlaen yn yr holiadur, ystyrir sut mae beirdd yn mynd ati i hyrwyddo eu cyfrolau wedi iddynt gael eu cyhoeddi. Yn ôl Aneirin Karadog, '(y)n yr oes sydd ohoni, ac yn enwedig yn y byd cyhoeddi Cymraeg, mae disgwyl i feirdd fod yn hunan-hyrwyddwyr'.[17] Mae'r dyfyniad hwn yn berthnasol iawn i gwestiwn 23 yr holiadur ynghylch y dulliau a ddefnyddiwyd gan y beirdd i hyrwyddo'u cyfrolau. Nododd 86% o'r cyfranwyr eu bod wedi perfformio rhai o gerddi'r gyfrol mewn digwyddiad cyhoeddus, gyda'r un ganran yn nodi eu bod wedi derbyn gwahoddiadau gan gyfryngau megis radio a theledu er mwyn trafod a hyrwyddo'u gwaith. Nododd 76% y trefnwyd lansiad swyddogol ar gyfer eu cyfrolau ganddynt eu hunain neu gan weisg. Yn bersonol, roeddwn yn disgwyl i'r ffigwr diwethaf fod yn uwch na'r atebion eraill oherwydd y lansiad, yn fy marn i, yw'r tro cyntaf y mae'r bardd yn trafod ei gyfrol yn gyhoeddus. Hefyd, mae lefelau hyrwyddo yn medru amrywio rhwng ymdrechion beirdd profiadol a'r beirdd hynny nad ydynt mor adnabyddus. Dywed Eurig Salisbury: 'Bydd cyfrol gan fardd adnabyddus yn gwerthu cryn dipyn o'r dechrau, ond gall cyfrol eithriadol gan fardd anadnabyddus fagu stêm hefyd ar gownt ei harbenigedd.'[18]

O ran amcanion y traethawd ymchwil hwn, gyda'r holiadur a'r astudiaeth yn porthi'r casgliad o gerddi, y cwestiwn pwysicaf a ofynnais yn yr holiadur oedd cwestiwn 28, sef: 'Yn eich barn chi, beth yw prif nodweddion cyfrol fawr o farddoniaeth?'

Rhoddwyd wyth nodwedd gerbron y cyfranwyr, sydd yn fy marn i yn cyfrannu tuag at gyfrol 'fawr' neu 'safonol', a gofynnwyd iddynt ddewis y pedwar pwysicaf yn eu barn hwy. Yn dilyn casglu'r atebion i gyd, dyma eu gosod mewn trefn o'r pwysicaf i'r lleiaf pwysig ym marn y cyfranwyr:

[17] A, Karadog. Cyswllt Personol. Ionawr 28ain 2019. Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw cyhoeddusrwydd bardd yn nhermau gwerthiant cyfrol? Ai'r bardd neu'r cynnwys sy'n gwerthu cyfrol?

[18] E. Salisbury. Cyswllt Personol. Mehefin 9fed 2019. Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw cyhoeddusrwydd bardd yn nhermau gwerthiant cyfrol? Ai'r bardd neu'r cynnwys sy'n gwerthu'r cyfrol?'

1. Mae gan y bardd lais unigryw – 91%
2. Mae'r bardd yn feistr ar ei grefft – 82%

=3. Mae yna gysondeb o ran safon y cerddi – 55%

=3. Mae'r darllenydd yn medru uniaethu gyda'r cerddi – 55%

5. Mae'r bardd yn canu o brofiad – 50%

6. Mae gan y bardd neges amserol – 40%

7. Mae'r bardd yn defnyddio amrywiaeth o fesurau – 12%

8. Mae'r gyfrol wedi'i dylunio a'i gosod yn effeithiol – 7%

Rhaid yw nodi nad tanseilio'r elfennau is yn y rhestr hon oedd nod y cwestiwn, oherwydd y mae'r elfennau uchod i gyd yn cyfrannu tuag at safon cyfrol. Fy mwriad oedd ceisio darganfod pa elfennau y mae'r beirdd yn chwilio amdanynt fwyaf fel darllenwyr a chyfansoddwyr oll. Gwelir uchod fod y beirdd yn chwilio am lais unigryw gan un sydd wedi meistroli'i grefft fel prif elfennau cyfrol safonol o farddoniaeth, fod y safon yn gyson a bod modd uniaethu â'r farddoniaeth. Dyna'r casgliad y deuir iddo ar sail atebion y beirdd.

Yn ei lyfr *Crefft y Gynghanedd*, trafoda Alan Llwyd lefelau'r gynghanedd, a thrafoda'r gerdd enwog 'Marwnad Siôn y Glyn' gan Lewys Glyn Cothi. Cerdd o'r 15fed ganrif ydyw, ond fe'i hastudir heddiw gan arbenigwyr ym maes y cywyddau ac ar gyrsiau gradd. Bu ar fanylebau safon uwch tan yn ddiweddar. Trafoda Alan Llwyd y rhesymau dros oroesiad y gerdd ar hyd y canrifoedd, a dyma a ddywed ef: 'Cyfuniad perffaith sydd yma o grefft gadarn, angerdd eirias a mynegiant cofiadwy, ac mae'r tri pheth yn un, yn elfennau anwahanadwy.'[19]

Hoffwn nodi nad dim ond arwydd o grefft yw'r cysyniad o 'lais' bardd. Ceir cyfraniad diddorol gan Ceri Wyn Jones yn y gyfrol *Dathlu'r Talwrn* wrth iddo drafod pwysigrwydd yr amrywiaeth a gynigir gan feirdd y Talwrn, gan gynnwys yr amrywiaeth o leisiau, ffurfiau a chyweiriau. Dywed wrth drafod 'llais':

[19] Llwyd, A. (2010). *Crefft y Gynghanedd*. Cyhoeddiadau Barddas: Llandybïe. (t.242)

> Am hynny, mae'r meibion a'r merched, y mamau a'r tadau, a'r neiniau a'r teidiau yn cadw cwmni diddig yma, rhai ohonyn nhw â phridd y fferm ar eu sgidiau, eraill â sŵn y dosbarth yn eu clustiau; rhai â llwch y llyfrgell neu sgrin y swyddfa yn eu llygaid, ac eraill â chreithiau ac olew'r gweithdy ar eu bysedd.[20]

Gellir cymhwyso hyn i drafodaeth ar hirhoedledd *Dail Pren*, mi gredaf. Ceir yma hefyd grefft, angerdd a mynegiant cofiadwy, yn ogystal ag amrywiaeth o gyweiriau sydd yn arddangos balchder Waldo ynghylch ei hunaniaeth fel Cymro a gŵr crefyddol.

Dyma gyfrol lle gwelir yr elfennau hyn ar waith yn rheolaidd, a'r canlyniad yw cerddi grymus megis 'Mewn Dau Gae', 'Cwmwl Haf' ac 'Y Plant Marw'. Yn wir, dywed un cyfrannwr mai ei reswm dros enwi Waldo fel ei hoff fardd oedd 'oherwydd ei allu i roi mynegiant cofiadwy i gymhlethdod teimladol ac ymenyddol'. Yn ôl cyfrannwr arall, 'bardd grymus a didwyll ei egwyddorion' oedd Waldo, un a lynodd yn rheolaidd wrth yr un delweddau a themâu i drosglwyddo ac ymgorffori ei gredoau. Dywed cyfrannwr arall mai'r rhesymau dros enwi *Dail Pren* fel ei hoff gyfrol oedd oherwydd 'yr ystod o emosiwn a ddaw o'r cerddi' a hefyd 'her a dyfnder y cynnwys'. Profodd Waldo ei gyfran o drasiedi yn ystod ei fywyd, ac esgorodd y profiadau hyn ar gerddi megis 'Geneth Ifanc' ac 'Angharad', a oedd yn myfyrio ar golled deuluol Waldo, a'r cerddi a luniwyd mewn ymateb i drasiedi'r ddynoliaeth yng nghysgod yr Ail Ryfel Byd, megis 'Preseli', 'Adnabod' a 'Gwanwyn'.

'Fe gyffyrddodd nerth canu Waldo a dyfnder ei weledigaeth gyda chynulleidfaoedd ledled Cymru'[21] yn ôl Aneirin Karadog wrth iddo drafod statws 'gwltaidd' *Dail Pren* gyda mi. Felly, gellir nodi bod Waldo yn 'fardd' yn unol ag awgrym Tudur Hallam oherwydd ei fod yn meddu ar grefft gadarn a grymus, ac enillodd hefyd 'sylw' iddo'i hun, yn gyntaf trwy

[20] Wyn Jones, C. (2020). 40 Allan o 40: Bwrdd Anrhydeddau'r Talwrn. Yn: *Dathlu'r Talwrn: Pigion ac Atgofion*. Cyhoeddiadau Barddas: Tal-y-bont. (t.90).

[21] A, Karadog. Cyswllt Personol. Ionawr 28ain 2019. Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Pam, yn eich barn chi, y mae cyfrol fel 'Dail Pren' wedi ennill statws gwltaidd?'

gyfrwng cyhoeddi nifer o'i gerddi mewn papurau a chylchgronau ymhell cyn cyhoeddi *Dail Pren*, ac yn ail, yn sgil ei waith ymgyrchu gwleidyddol a heddychol.[22]

Ond, beth am yr elfennau isaf yn y rhestr? Pa mor bwysig yw defnyddio amrywiaeth o fesurau o fewn y gyfrol a bod y gyfrol wedi'i dylunio a'i gosod yn effeithiol?

Amrywia pob cyfrol o ran y nifer o fesurau a ddefnyddir gan y bardd ynddi. Tybed mai un rheswm dros ddefnyddio amrywiaeth o fesurau yw arddangos meistrolaeth ar grefft, ond nid oes o reidrwydd angen yr amrywiaeth er mwyn i gyfrol gynnal safon drwyddi. Cymharer *Bylchau* gan Aneirin Karadog[23] a *Llinynnau* gan Aled Lewis Evans[24], er enghraifft. Yn ei gyfrol *Bylchau*, defnyddia Aneirin Karadog gyfanswm o wyth mesur gwahanol, tra bo'r cerddi i gyd ar fesur y wers rydd yn *Llinynnau*. Er hynny, bu'r ddwy gyfrol hyn yn ymgiprys am wobr farddoniaeth cystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn yn 2017. Gwelwyd yr un sefyllfa yn yr un categori yn 2018 wrth gymharu *Llif Coch Awst*[25] gan Hywel Griffiths a *Treiglo*[26] gan Gwyneth Lewis. Defnyddir y wers rydd trwy'r gyfrol gan Gwyneth Lewis, tra defnyddia Hywel Griffiths nid llai na thri gwahanol fesur ar ddeg yn ei gyfrol ef. Dengys hyn nad yw defnyddio toreth o fesurau o fewn cyfrol yn ei chodi i dir uwch na chyfrol lle gwelir ond un mesur ar ei hyd, ac atgyfnertha hyn y farn fod llais a chrefft y bardd yn fwy effeithiol na'r ystod o fesurau.

Dewis y bardd a'r golygydd ydyw sut y gosodir y cerddi o fewn cyfrol, ac mae hynny'n amrywio o fardd i fardd. Pe cymerir *Dail Pren* fel enghraifft, gwelir bod cerddi 'mwyaf' Waldo ar ddechrau'r gyfrol megis 'Tŷ Ddewi', 'Geneth Ifanc', 'Ar Weun Cas' Mael',

[22] Williams, W. (2010). *Dail* Pren. Gwasg Gomer: Llandysul. - Yn ei ragair y mae Waldo yn diolch i nifer fawr o ffynonellau a fu'n cyhoeddi ei gerddi ar hyd y blynyddoedd, megis *Y Ford Gron, Y Faner, Y Llenor* a mwy. Gweler y rhestr lawn ar dudalen xiii y gyfrol
[23] Karadog, A. (2016). *Bylchau*. Cyhoeddiadau Barddas: Llandybïe
[24] Lewis Evans, A. (2016). *Llinynnau*. Cyhoeddiadau Barddas: Llandybïe
[25] Griffiths, H. (2017). *Llif Coch Awst*. Cyhoeddiadau Barddas: Talybont.
[26] Lewis, G. (2017). *Treiglo*. Cyhoeddiadau Barddas: Aberystwyth.

‘Preseli’, ‘Mewn Dau Gae’, ‘Y Tŵr a’r Graig’ ac ‘Y Tangnefeddwyr’. Ceir dwy eithriad yn fy marn i, sef ‘Cofio’ ac ‘Y Plant Marw’ a ymddengys yn ail hanner y gyfrol. Ar drywydd tebyg, ystyrier *Cilmeri a Cherddi Eraill* gan Gerallt Lloyd Owen[27] oherwydd egyr honno gyda dwy awdl fawr, a’r ddwy ohonynt yn awdlau arobryn yn yr Eisteddfod Genedlaethol, sef ‘Cilmeri’ (1982) ac ‘Afon’ (1975).

Er hynny, tacteg arall a welir mewn cyfrolau yw bod y bardd yn penderfynu cloi’r gyfrol gyda’i gerdd fwyaf. Dwy gyfrol sydd yn dilyn yr ogwydd yma yw *Llif Coch Awst* gan Hywel Griffiths[28] a *Parcio* gan Tudur Hallam[29]. Y gerdd olaf yn *Llif Coch Awst* ydyw’r awdl ‘Gwe’, sef awdl arobryn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2015, tra bo awdl arobryn Eisteddfod Genedlaethol 2010, ‘Ennill Tir’, wedi ei gosod fel y gerdd olaf ond un yng nghyfrol Tudur Hallam. Yn ôl Eurig Salisbury, ‘(m)ae cyfuniad o bob dim, siawns, sef cynnwys, dyluniad a golygydd gwych, yn lle da i ddechrau’[30] wrth anelu at lunio cyfrol safonol. Cytunaf, gan adleisio’r hyn a ddywedais yn flaenorol yn y bennod hon, sef bod yr elfennau i gyd a restrwyd gennyf yn chwarae eu rhan o fewn adeiladwaith cyfrol safonol o farddoniaeth.

Yn ystod fy nghyfweliadau, ystyriais gyhoeddusrwydd bardd a’r effaith a gaiff hynny ar werthiant cyfrol. Wedi derbyn ymatebion y beirdd a holwyd, medrais dynnu un llinyn pendant, sef mai’r bardd sydd yn gyrru gwerthiant cyfrol, ond y cerddi sydd yn peri i’r gyfrol fod yn gofiadwy. Yng ngeiriau Grug Muse: ‘Y bardd sy'n gwerthu cyfrol, ond ei chynnwys hi sy'n sicrhau ei pharhad.’[31] Y mae Tudur Dylan Jones o’r un farn, pan ddywed:

> Y tristwch ydy dwi’n meddwl mai’r person sy’n gwerthu fwyaf yn hytrach na’r cynnwys...ond rhywbeth arall ydy a yw’r gyfrol yn arhosol...y cerddi eu hunain sy’n penderfynu hynny[32]

---

[27] Lloyd Owen, G. (1991). *Cilmeri a Cherddi Eraill*. Gwasg Gwynedd: Caernarfon.
[28] Griffiths, H. (2017). *Llif Coch Awst*. Cyhoeddiadau Barddas: Talybont.
[29] Hallam, T. (2019). *Parcio*. Cyhoeddiadau Barddas: Llandybïe.
[30] E, Salisbury. Cyswllt Personol. Mehefin 9fed 2019. Mewn ymateb i’r cwestiwn ‘A ydych yn credu bod yna fformiwla ar gyfer creu cyfrol lwyddiannus?’
[31] E.G, Muse. Cyswllt Personol. Ebrill 12fed 2019.
[32] T.D., Jones. Cyswllt Personol. Ionawr 28ain 2019.

Gellir nodi bod y dyfyniadau uchod yn cysylltu eto â sylw Tudur Hallam ynghylch y syniad o ‘sylw’ cyhoeddus wrth arddel y term ‘bardd’. Awgrymant hefyd fod cyfryngau’r sîn farddol Gymraeg yn hyrwyddo sîn sydd yn ‘fardd-ganolog’ ar y cyfan, a bod gofyn i feirdd, fel yr awgrymodd Aneirin Karadog, fod yn hunan-hyrwyddwyr yng Nghymru.

Felly, yr hyn sy’n peri bod y sefyllfa farddonol gyfoes yn ddiddorol ac yn fywiog yw’r amrywiaeth o leisiau gwahanol, a’r amrywiaeth o ddulliau gwahanol, sydd yn rhan annatod o’r sefyllfa honno, o’r prentis i’r prifardd, ac weithiau, daw’r prentis i fwy o amlygrwydd na’r prifardd, gan gyhoeddi i’r byd ei fod yn fardd, megis Caryl Bryn yn dod i’r brig yn 2020.

## Pennod 2. Dadansoddi a gwerthfawrogi elfennau o gyfrol Gymraeg boblogaidd o'r ugeinfed ganrif: *Dail Pren* – Waldo Williams

Fy mwriad yn yr astudiaeth hon yw trafod a dadansoddi un gyfrol Gymraeg o ganol yr ugeinfed ganrif, sef *Dail Pren* gan Waldo Williams. Er i'r gyfrol gael ei chyhoeddi ym 1956, fel y dadlennodd canlyniadau'r holiadur, erys yn boblogaidd hyd heddiw ac yr wyf am ddarganfod y rhesymau sydd yn peri'r hirhoedledd hwnnw. Yn wir, hon oedd y gyfrol farddoniaeth orau yn y Gymraeg ym marn gyfansawdd y sawl a holwyd. Cynhwysir, yn y bennod hon, drafodaeth ar weledigaeth a chrefft Waldo a sut y maent i'w gweld ar waith yn ei farddoniaeth ef. Yn ychwanegol, ac yn gymorth cyd-destunol i'm trafodaeth ar y ddwy elfen hyn, ystyriaf ambell elfen fywgraffyddol a fydd yn darparu ychydig o gefndir i farddoniaeth Waldo.

Yn ei rhagair i ail argraffiad *Dail Pren*, dywed Mererid Hopwood:

> Mae'r ysgolheigion wedi bod yn brysur yn tynnu ein sylw ni at bob math o fanylion yng ngwaith Waldo ers blynyddoedd. Mae yna drafod brwd wedi bod ar ei genedlgarwch, ei grefydd, ei gyfriniaeth a'i hiwmor. Waldo'r Bardd Rhamantaidd. Waldo'r Bardd Tywyll. Waldo Bardd y Goleuni. Waldo Bardd y Plant, Bardd Brawdoliaeth, Bardd Heddychiaeth. Waldo hyn ac arall. Ond yn y pen draw, onid hwn yw'r Waldo sy'n rhy fawr i'w ddiffinio?[33]

O'r un paragraff hwn, cawn gipolwg ar unigrwyedd Waldo. Bydd elfennau o'r paragraff yn cael eu trafod yn y bennod hon. Nid diffinio Waldo yw fy mwriad yma, ond ei werthfawrogi trwy arddangos elfennau o'i fawredd a arweiniodd at ei adnabod fel un o feirdd pwysicaf yr iaith Gymraeg.

[33] Williams, W. (2010). *Dail Pren*. 2il arg. Gwasg Gomer: Llandysul. (t.vii)

## 2.1.'Y Meddyliwr' – gweledigaeth a themâu'r bardd

Mewn pennod ar fyfyrdod, cyfeiria Alan Llwyd yn *Crefft y Gynghanedd* at eiriau T.H. Parry-Williams, a ddywedodd fod yn 'rhaid cael y meddyliwr (neu'r myfyriwr, neu'r awenydd) a'r celfyddwr (neu'r *artist*, neu'r crefftwr) gyda'i gilydd'[34] er mwyn esgor ar waith o safon. Yn ystod y bennod hon, byddaf yn rhoi sylw i'r ddwy elfen hyn. Ond i ddechrau canolbwyntiaf ar elfen 'y meddyliwr' yn yr is-adran hon gan graffu'n fwy ar sut yr oedd Waldo yn trosglwyddo ei syniadaeth trwy gyfrwng themâu mawr ei farddoniaeth.

### Brawdoliaeth

Credaf fy mod yn gwneud cam â barddoniaeth Waldo trwy drafod brawdoliaeth fel 'thema' yn ei gerddi. Egwyddor, neu gred hynod gref ydyw a red yn ddwfn iawn yng nghymeriad y bardd. Yn wir, dyma eiriau'r bardd: '...brawdoliaeth yw ceidwad ein dynoliaeth annibynnol. Hi yw sylfaen ein rhyddid canys ganed ni yn ddibynnol ar ein gilydd ac yn y berthynas honno y canfyddwn ein hawliau.'[35]

Sefydlwyd y gred mewn brawdoliaeth yn gynnar ym magwraeth Waldo yn sgil credoau cryf yr aelwyd a'r teulu. 'Roedd casineb at ryfel a chariad at gyd-ddyn ymhlith y gwerthoedd pwysicaf a mwyaf sylfaenol gan y teulu' yn ôl Alan Llwyd.[36] Yn fy marn i, y mae themâu eraill Waldo yn tarddu o'r gred hon ym mrawdoliaeth dyn. Daw themâu megis caru bro, cyd-ddyn hefyd, heddychiaeth, crefydd ac adnabod i'r amlwg yn y gyfrol.

Cydraddoldeb a thegwch i bob un o fewn y gymdeithas ydyw delfryd brawdoliaeth i'r bardd yn ei gerddi; 'cymdeithas yn gytûn' a welir yn 'Ar Weun Cas' Mael'. Yn yr un gerdd, ymbil

[34] Llwyd, A. (2010). *Crefft y Gynghanedd*. Cyhoeddiadau Barddas: Llandybïe. (t.262).
[35] Williams, W. (1977). Brenhiniaeth a brawdoliaeth. Yn: Nicholas, J. (gol). *Waldo: cyfrol deyrnged i Waldo Williams*. Gwasg Gomer: Llandysul. (t.269)
[36] Llwyd, A. (2014). *Waldo – Cofiant Waldo Williams: 1904-1971*. Y Lolfa: Talybont. (t.65)

y mae'r bardd ar y fro, ac ar Gymru, i gynrychioli a chyfoethogi'r frawdoliaeth ymysg y gymdeithas:

> A'th nerth o'u cefn,
> Blodeuai, heb gaethiwed un,
> Eu haraf drefn.

Gyda chymorth y fro, ffurfiwyd y drefn ddelfrydol yng ngolwg y bardd. Cymdeithas 'heb gaethiwed un'. Cymdeithas felly ydyw'r Preseli i'r bardd, cymdeithas lle y gwelir pob un yn chwarae ei ran yng ngofal a pharhad y fro. Gwêl y bardd '[f]edel ar lethr eu cymydog' yn ystod cyfnod y cynhaeaf yno, a chlyw 'un llef pedwar llais'. Delweddau effeithiol yw'r rhain wrth ddisgrifio'r cydweithio o fewn y gymuned fach hon, ac mae'r elfennau hyn yn esgor ar ymadrodd enwol enwog y bardd, sef 'bro brawdoliaeth'. Teyrnged deilwng oedd bathu'r ymadrodd hwn, oherwydd yn y fro hon ac ymhlith ei deulu y sefydlwyd y gred yn y Waldo ifanc yn y lle cyntaf.

Adleisir y ddelwedd 'un llef pedwar llais' ar ddechrau'r gerdd 'Brawdoliaeth' gan gyfuno'r gred hon gydag elfen o grefydd a heddychiaeth:

> Mae rhwydwaith dirgel Duw
> Yn cydio pob dyn byw;
> Cymod a chyflawn we
> Myfi, Tydi, Efe.

Trwy gyfrwng brawdoliaeth y mae'r ddynoliaeth yn medru esgyn fry tua'r nefoedd ac at Dduw. Yn y 'rhwydwaith dirgel' hwn y clymir pawb ynghyd trwy weithredoedd heddychlon a di-drais, ynghyd â thrwy faddau a chymodi. Fel hyn, i'r bardd, y gwasanaethir gerbron Duw.

Cyfeiriais uchod at eiriau Alan Llwyd parthed gwerthoedd teulu Waldo, megis cariad at gyd-ddyn, a gwelir gwaddol hyn yn y gerdd 'Y Tangnefeddwyr':

Ni châi enllib, ni châi llaid
    Roddi troed o fewn i'w tre.
Chwiliai 'mam am air o blaid
    Pechaduriaid mwya'r lle.

Gweld pawb yn eu goleuni gorau a wna Waldo a'i deulu. Gadawyd unrhyw 'enllib' a 'llaid' y tu allan i aelwyd y teulu, a thu hwnt i'r fro. Aelwyd o degwch oedd yr aelwyd hon, lle rhoddid croeso cynnes i bob un, beth bynnag eu cefndir, hyd yn oed '[p]echaduriaid mwya'r lle'. Tala Waldo deyrnged bellach i'r ochr hon yng nghymeriad ei fam yn y cywydd 'Angharad': 'Dros lawer y pryderai/Liw nos' ac 'I'w phyrth deuai'r trafferthus/a gwyddai'r llesg ddôr ei llys.'

Un o seiliau brawdoliaeth i Waldo yw'r broses o 'adnabod' ein cyd-ddyn, 'adnabod nes bod adnabod' yn ôl geiriau 'Mewn Dau Gae'. Cyfeiria Alan Llwyd at ddylanwad yr athronydd Saesneg, Edward Carpenter, ar yr egwyddor hon ym magwraeth ac yng nghanu Waldo. '[R]ecognition and understanding'[37] yw geiriau Carpenter am yr 'adnabod' hwn a oedd mor bwysig i Waldo, yr adnabod trylwyr sydd yn esgor ar yr ymdeimlad o frawdoliaeth. Trwy adnabod ein gilydd, y gallwn waredu unrhyw awgrym o ryfela yn ein plith.

Ystyrier y gerdd 'Adnabod' lle mae'r bardd yn delweddu'r syniadaeth hon. Delwedd o arweinwyr 'sarffaidd, sinistr' sydd yma yn porthi ar yr hyn y maent yn ei wybod ar hyn o bryd, ond yn ôl y bardd mae angen cymorth a nerth 'awen Adnabod' i drechu'r wladwriaeth ormesol. Cyfarch yr 'awen Adnabod' a wna Waldo trwy'r gerdd i gyd, megis 'Ti fo'n harf. Ti fo'n hynni', 'Ti yw'n hanadl.' a 'Ti yw'r halen i'n puro.'. Ar ddiwedd y gerdd, gwelwn Dduw ei hun yn ymddangos yn rhith goleuni'r haul trwy'r awyr i drechu'r 'pen sarffaidd, sinistr':

Tyr yr Haul trwy'r cymylau –

[37] Llwyd, A. (2014). *Waldo – Cofiant Waldo Williams: 1904-1971*. Y Lolfa: Talybont. (t.69)

Ti yw Ei baladr ar y borfa.

**Llais 'y rhai bychain'**

Cred Waldo mewn tegwch ar draws haenau cymdeithas. Yn ôl Alun Llywelyn-Williams, '[y] truan a'r gwan, y tlawd a'r anghenus yn y byd hwn, y lleiafrifoedd dinod, y rhai bychain, oedd testun ei fyfyrdod'.[38] Ceir llawer o dystiolaeth o'r egwyddor hon yn nifer o gerddi *Dail Pren*. Un gerdd lle ceir cyfeiriad at 'y rhai bychain' ydyw pobl y Preseli yn y gerdd 'Preseli'. Amaethwyr dygn ydynt yng ngolwg y bardd:

Hil y gwynt a'r glaw a'r niwl a'r gelaets a'r grug,
Yn ymgodymu â daear ac wybren ac yn cario
Ac yn estyn yr haul i'r plant, o'u plyg.

Hil pob tywydd oeddynt, ond ymfalchïent yn eu hetifeddiaeth a oedd yn ganolog i'w hymdrechion. Gweler sut y maent yn 'estyn yr haul i'r plant' yn wyneb tywydd garw y llinell gyntaf uchod. Gwelir delwedd debyg sy'n gysylltiedig â'r thema hon yn y gerdd 'Geneth Ifanc' lle mae'r bobl 'yn prynu cymorth daear â'u dawn'.

Clodfori'r 'rhai bychain' a wna'r bardd yn 'Y Tangnefeddwyr' oherwydd yn sgil eu dylanwad hwy y sefydlodd teulu Waldo ei egwyddor o frawdoliaeth. Dywed mai '(a)ngel y cartrefi tlawd' a gyflwynodd i'w dad y syniad mai '(c)ennad dyn yw bod yn frawd'. Gwelir felly sut y mae'r thema hon o gydweithio gwerinol yn ganolog yn *Dail Pren*.

Cerdd rymus sydd yn ymdrin â dioddefaint 'y rhai bychain' yw '*Die Bibelforscher'*. Coffáu'r Tystion Jehofa a garcharwyd ag a laddwyd yng ngwersylloedd yr Ail Ryfel Byd a wna Waldo

[38] Llywelyn-Williams, A. (1977). Waldo Williams. Yn: Nicholas, J. (gol). *Waldo: Cyfrol deyrnged i Waldo Williams*.Llandysul (tud.101)

yn y gerdd hon. Fe'm hysgytiwyd gan un cwpled yn benodol sydd yn delweddu ymlyniad y bobl hyn wrth eu credoau yn ystod cyfnod o ddioddefaint erchyll dan law'r Natsïaid. Dyma'r cwpled:

> Pur trwy ffieidd-dra'r ffald
> Oedd eu tystiolaeth hwy yn Buchenwald.

Yn wyneb yr holl drais, arhosodd y bobl yn ffyddlon gan arddangos agwedd heddychlon. Trwy gyfrwng y coffâd hwn, dengys Waldo yn glir ei atgasedd tuag at drais a rhyfela, gan ddyrchafu'r heddychwyr.

Yn ei ddarlith 'Poetry and Peacemaking', dywed cyn-Archesgob Caergaint, Rowan Williams, wrth drafod y berthynas rhwng barddoniaeth a heddychiaeth Waldo: 'these two dimensions of Waldo's life are really inseperable.'[39] Gwelir y ddau ddimensiwn hwn ar waith yn y drafodaeth uchod, a rhydd hyn gipolwg o wir ymlyniad y bardd wrth ei weledigaeth o fyd heddychlon, di-drais. Dyma'r 'meddyliwr' ynddo yn amlygu'i hun wrth iddo drosglwyddo'r weledigaeth rymus hon yn rheolaidd yn ei gerddi.

Gwelir ymdriniaeth fwy cyfansawdd â'r thema hon, ymdrechion a dycnwch y werin yn wyneb heriau'r wladwriaeth, yn y cywydd hirfaith 'Y Tŵr a'r Graig' a gyhoeddwyd flwyddyn cyn dyfodiad yr Ail Ryfel Byd pan fygythiwyd tir y Preseli gan ddymuniadau'r llywodraeth i sefydlu gorfodaeth filwrol ac i feddiannu'r tir ar gyfer meysydd ymarfer.

Symbol o'r werin ddyfal a'r hen ddiwylliant Cymreig hanesyddol ydyw'r 'graig', ond ar y llaw arall saif y 'tŵr' yn symbol o ormes y gwladwriaethau estron, rhyfelgar.

---

[39] Williams, R. (2012). *Poetry and Peacemaking*. Ar-lein. Ar gael: http://aoc2013.brix.fatbeehive.com/canterbury//data/files/resources/2426/120323-Archbishop-Rowan-Waldo-Wms-lecture.mp3 (Mynediad ar 26ain o Fedi 2020)

Pwysleisia'r bardd ddycnwch y werin trwy gyfrwng ailadrodd nifer o linellau ar draws y deuddeg caniad. Ymddengys y llinell 'Gyr glaw ar y garreg lom' bedair gwaith, yn benodol yng nghaniadau III, VI, X ac XII. Ymddengys llinellau tebyg yn ystod y gerdd, megis 'Gyr glaw ar y garreg lwyd' (caniad IV) ac 'Y grug a'i liw dan graig lom' (caniad VI a VII). Rhaid mai llinell bwysicaf y gerdd wrth ystyried y thema hon ydyw: 'Yr un yw baich gwerin byd' a ymddengys yng nghaniadau IV, V, VI, VII, VIII a IX. Mae'r undod a grëwyd yn sgil yr ailadrodd hwn yn benigamp yn fy marn i, ac yn enghraifft arall o allu'r bardd i ddewis ac yna i lynu wrth ddelwedd a thema.

**Cwymp 'y rhai mawr'**

Y thema olaf sydd yn denu fy sylw yw delfryd y bardd o gwymp y mawrion mewn cymdeithas. Ceir delweddu gwych i ddiriaethu'r ddelfryd hon yng nghaniad olaf 'Y Tŵr a'r Graig', a'r llinellau canlynol yn benodol:

> Gostwng a fydd ar gastell,
> A daw cwymp ciwdodau caeth,
> A hydref ymerodraeth.

Delwedd o freuder arweinwyr sydd yma. Daw terfyn i ryfel, a therfyn i ormes yr ymerodraethau yn ôl y bardd. Mewn cyferbyniad â'r uchod, daw'r dydd y dyrchefir 'y rhai bychain' o fewn cymdeithas oherwydd eu hymlyniad wrth y gwaith o warchod y ddaear a'r ddynoliaeth: 'O, mae gwanwyn amgenach/Ar hyd y byd, i rai bach.' Mae'r thema hon yn arbennig o arwyddocaol yng nghyd-destun ein cymdeithas gyfoes ni, lle ceir mwy o bwyslais ar warchod 'y rhai bychain' trwy gyfrwng ymdrechion nifer o fudiadau ac elusennau rhyngwladol, megis 'UNICEF' a 'Save The Children', ac er mwyn gwarchod ein hamgylchfyd trwy waith 'Greenpeace' a'r 'WWF'.

Teimlaf fod yr enghraifft orau o'r cwymp a'r dyrchafiad yma o fewn cymdeithas i'w gweld yn y gerdd 'Plentyn y Ddaear':

> Daw dydd y bydd mawr y rhai bychain,
> Daw dydd ni bydd mwy y rhai mawr,
> Daw'r bore ni wêl ond brawdoliaeth
> Yn casglu teuluoedd y llawr.

Dyma ddelfryd aur y bardd, sef gweld brawdoliaeth yn uno a chyfannu'r ddaear. Dyma ran arall o apêl barhaus Waldo. Ar lawer cyfri', rhagwelodd dwf mudiadau protest sy'n ceisio gwarchod amrywiaeth diwylliannol y byd hwn – boed hwnnw'n amrywiaeth ieithyddol, megis yn achos y Gymraeg, neu'n gyfiawnder hiliol, megis yn achos 'Mae Bywydau Du o Bwys', neu'n llais dros hawliau merched, megis y mudiad 'Me Too'.

Bardd y bach a bardd ei gyd-ddyn ydyw Waldo yn ei hanfod. Roedd yr ymdeimlad hwnnw mor gryf ynddo nes iddo esgor ar ganu gwrth-drais, heddychol a chrefyddol sydd mor gyfoes heddiw ag erioed. Yn fy marn i, dyma brif nodwedd canu thematig Waldo, sef ei weledigaeth o ddynoliaeth gytûn. Yn ôl R. Geraint Gruffydd, 'fe fu byw brawdgarwch', a llwydda Waldo i drosglwyddo'n glir y weledigaeth honno yn ei farddoniaeth.[40]

### 2.2.'Y Celfyddwr' – crefft y bardd

Yn yr adran hon, trafodaf ail elfen dyfyniad T.H. Parry-Williams, sef Waldo'r 'celfyddwr'. Dyma ymgais i drafod rhagoriaethau'r bardd o ran crefft ei gerddi. Bwriaf olwg dros ddelweddau canolog ei farddoniaeth, a cheisiaf ddangos sut mae'r gynghanedd yn cyfoethogi

[40] Geraint Gruffydd, R. (1997). Waldo Williams. Yn: Rhys, R. (gol.) *Y Patrwm Amryliw – Cyfrol 1*. Cyhoeddiadau Barddas: Llandybie. (t.201)

ei gerddi rhydd a'i ddefnydd crefftus o'r odl broest. Ceir cyfeiriadau at arddull o fewn y drafodaeth hon hefyd.

**Undod delweddol**

'Undod sy'n creu artistwaith' yn ôl Alan Llwyd [41]. Er mai sôn am farddoniaeth gynganeddol yn benodol y mae'r bardd-feirniad yn yr achos hwn, mae'r neges yn un sy'n berthnasol i farddoniaeth yn ei chyfanrwydd, mi gredaf. Manyla ar y cysyniad hwn:

> Ond mae angen mwy nag undod mesur neu gyfrwng. Rhaid cael undod yn y mynegiant hefyd, undod yn y cynnwys, yn y syniad neu'r mater. Ac mae'n rhaid pwysleisio'r mater hwn o undod dro ar ôl tro.[42]

Undod ydyw'r glud sy'n dal cerddi ynghyd. Dyma sy'n codi'r mynegiant i dir uchel. Symudwn yma i drafod enghreifftiau o undod delweddol yn *Dail Pren*. Gwelir nifer o ddelweddau sydd yn ganolog i'r gyfrol. Y tair delwedd yr wyf am eu trafod yma ydyw'r tŷ, yr adar a'r goeden. Y rhain yn fy marn i yw tair delwedd amlycaf y gyfrol.

Dechreuaf gyda delwedd y tŷ. 'Y tŷ i Waldo yw canolfan y bychanfyd a'r mawrfyd' yn ôl J.E. Caerwyn Williams. [43] Mae'n symbol o'r Ddaear yng nghanu Waldo, yr amgylchfyd a bodolaeth y ddynoliaeth gyda'i gilydd. Gwelir y tŷ yng nghlo'r gerdd 'Geneth Ifanc':

> Cadarnach **y tŷ** anweledig a diamser
> Erddi hi ar y copâu hyn.

Bywyd ei hun ydyw'r tŷ yma, yn deillio efallai o brofiad ym mywyd y bardd o ddygymod â marwolaeth ei chwaer yn ifanc iawn. A bywyd eto ydyw symbol y tŷ yn agoriad 'Pa Beth yw Dyn?' wrth i'r bardd holi:

---

[41] Llwyd, A. (1997). *Crefft y gynghanedd*. Cyhoeddiadau Barddas: Llandybïe (t.167)
[42] Llwyd, A. (1997). *Crefft y gynghanedd*. Cyhoeddiadau Barddas: Llandybïe (t.167)
[43] Caerwyn Williams, J.E. (1977). Yng Nghysgod Dail Pren. Yn: Nicholas, J. (gol). *Waldo: cyfrol deyrnged i Waldo Williams*. Gwasg Gomer: Llandysul. (t.169)

Beth yw bywyd? Cael **neuadd** fawr
Rhwng cyfyng **furiau**.

"Nid culni yw bywyd, ond eangfrydedd enaid", chwedl Dafydd Owen,[44] a dyma sydd wrth wraidd geiriau Waldo yn fy marn i. Fe'n hanogir i wneud y mwyaf o'r hyn sydd gennym, a pheidio ag ystyried bywyd fel un lôn neu lwybr cul ond yn hytrach ffordd sy'n agored i feithrin meddylfryd eang ac i fentro ar hyd llwybrau lu. Hawdd synied felly wrth feddwl am drosiad y llwybr, ond dyma Waldo yn llwyddo i gyfleu'r cyfryw eangfrydedd drwy gyfrwng trosiad y neuadd fawr.

Gwelir cyfeiriad arall at symbol y tŷ yn nes ymlaen yn y gerdd mewn cyd-destun ychydig yn wahanol:

Beth yw gwladgarwch? Cadw **tŷ**
Mewn cwmwl tystion.

Tŷ gwladgarwch sydd yma, y weithred o garu gwlad yn wyneb gorthrwm a thueddiadau estron. Cadw a thendio'r tŷ yw'r angen, aros yn ffyddlon a gwneud ein gorau dros ein gwlad, a hynny o reidrwydd ym mhresenoldeb eraill sydd yn dystion i hynny.

Tŷ gwladgarol ydyw'r tŷ hefyd yn y gerdd 'Bydd Ateb', tŷ a fydd yn annedd i'r iaith Gymraeg pan ddaw Dydd y Farn yn ôl y bardd:

Bydd cynnal nerth a bydd canlyn Arthur.
Bydd hawlio'r **tŷ**, bydd ail alw'r **towyr**

Proffwyda'r bardd y daw'r dydd y bydd arwyr y Gymru newydd yn dod ac yn cymryd yr awenau er mwyn hawlio ac adfer y Gymraeg. Tŷ arwrol ydyw hwn felly gyda chyfeiriad at un o arwyr mwyaf hanes Cymru, sef y Brenin Arthur.

[44] Owen, D. (1972). *Dal Pridd y Dail Pren*. Christopher Davies: Llandybïe. (t.68)

Dyma a ddywed y bardd am y tŷ yn y gerdd ‘Oherwydd Ein Dyfod’:

> Oherwydd ein dyfod i’r **tŷ cadarn**
> A’i lonydd yn sail i lawenydd ein serch

Bywyd serchus sydd yma, a chwrs bywyd y bardd yn gyfres o lonydd sydd yn datgelu profiadau o lawenydd a serch iddo yng nghwmni cariad. Defnyddir yr ansoddair ‘cadarn’ unwaith yn rhagor gan y bardd i awgrymu sefydlogrwydd bywyd.

Gwelir y tŷ fel symbol o garedigrwydd yn y cerddi ‘Angharad’ a ‘Cwmwl Haf’. Tŷ cysurus a chroesawgar ydyw’r tŷ yn ‘Angharad’ wrth i’r bardd dalu teyrnged i bersonoliaeth fwyn ei fam:

> I’w **phyrth**, deuai’r trafferthus
> A gwyddai’r llesg ddôr ei **llys**.

Lle o groeso cynnes yw’r tŷ hwn i bobl o bob cefndir yn ‘Angharad’, a sylwer nad fel ‘tŷ’ y disgrifir yr annedd yma, ond fel ‘llys’, gan awgrymu crandrwydd a pharch y bardd tuag at gymeriad ei fam a thuag at ei fagwraeth. Dyma’r bardd yn datblygu arwyddocâd y symbol yn ‘Cwmwl Haf’ wrth i’r tŷ ymddangos mewn dwy wedd gyferbyniol:

> Ac yn **y tŷ** sydd allan ymhob tywydd

a

> Caredigrwydd oedd **y tŷ**

Cadernid a gwytnwch y tŷ a bwysleisir yn y dyfyniad cyntaf uchod. Gall y tŷ wrthsefyll grym a thymer natur. Gellir dehongli’r llinell yn drosiadol hefyd gyda’r tŷ eto yn gynrychiolaeth o fywyd a’i dymhestloedd; mae’n ddygn ac yn gwrthsefyll heriau bywyd. Pwysleisia’r ail ddyfyniad wedd fewnol, fwyn y tŷ. A beth bynnag oedd y tywydd neu’r amgylchiadau o’i gylch, llanwyd y tŷ â gwres caredigrwydd. Dyma wres y teulu a’r gymdogaeth leol. Yn ei gofiant i’r bardd, dywed Alan Llwyd mai’r ‘ddau beth a ddylanwadodd fwyaf ar y Waldo

ifanc oedd agosrwydd teulu a chlosrwydd cymdogaeth.'[45]. (Ceir trafodaeth bellach ar oblygiadau'r dylanwadau hyn yn ystod fy nhrafodaeth ar undod thematig y gyfrol.)

Cyfeiriadaeth deuluol sydd i'r tŷ yn 'Y Tangnefeddwyr', ac effaith y teulu ar fywyd a magwraeth Waldo:

> Angel **y cartrefi** tlawd
> Roes i 'nhad y ddeuberl drud:
> Cennad dyn yw bod yn frawd,
> Golud Duw yw'r anwel fyd.

Saif 'y cartrefi tlawd' am y werin bobl, y bobl a oedd bwysicaf yng nghanu Waldo, y gymdogaeth glòs a seiliwyd ar sosialaeth a chydweithio. Yr '(a)ngel' yma a dasgodd oleuni dros gredoau rhieni Waldo, yn bennaf ei dad John Edwal Williams. Ac fe etifeddodd Waldo'r credoau hyn. Yn fy marn i, y mae'r drydedd linell uchod ('cennad dyn yw bod yn frawd') yn crynhoi awen a chenhadaeth gyfan Waldo. Dyna oedd yr egwyddor a yrrai ei ganu yn ei blaen fwyaf oll trwy gydol ei fywyd.

Gwelir ymdriniaeth ddyfnach o symbol y tŷ gan Mererid Hopwood yn y bennod 'Pensaernïaeth Waldo'.[46] Noda fod y tŷ'n gysylltiedig â rhinweddau haniaethol, megis caredigrwydd, yn y cerddi 'Oherwydd Ein Dyfod' a 'Cwmwl Haf', a bod 'y tai hyn yn anghyffwrdd, anweladwy hyd yn oed',[47] megis yn y gerdd 'Geneth Ifanc'.

Bro ac aelwydydd y Preseli yw'r tŷ yn y gerdd 'Preseli', ac mae undod y symbol yn ymestyn ar draws pennill olaf y gerdd. Dyma'r pennill:

> Hon oedd fy **ffenestr**, y cynaeafu a'r cneifio,
> Mi welais drefn yn fy **mhalas** draw.

[45] Llwyd, A. (2014). *Waldo - Cofiant Waldo Williams: 1904-1971*. Y Lolfa: Talybont. (t.80)
[46] Hopwood, M. (2018). Pensaerniaeth Waldo. *Llên Cymru, 41*. (tt.162-183)
[47] Hopwood, M. (2018). Pensaerniaeth Waldo. *Llên Cymru, 41*. (t.164)

Mae rhu, mae rhaib drwy'r fforest ddiffenestr.
Cadwn y **mur** rhag y bwystfil, cadwn y ffynnon rhag y baw.

Ffocysir ar dair elfen o'r tŷ yma. Y 'ffenestr' a ddaw gyntaf. Hon sydd yn galluogi'r bardd i brofi bywyd y Preseli. Dyma oedd y gymdogaeth glòs yr oedd Waldo mor awyddus i'w gosod fel patrwm i'r byd a'r gymdeithas ehangach. '(P)alas' oedd yr ardal iddo ef, yn llawn trefn a chrandrwydd, a phob un â'i gyfrifoldebau ei hun, pawb yn byw mewn harmoni gyda'i gilydd. Gwelir rhith y 'mur' yn y llinell olaf. Dyma gadernid y bobl a'r ardal, ac ymbil y mae'r bardd ar i'r bobl amddiffyn y 'mur' rhag unrhyw orthrwm estron, y wladwriaeth yn yr achos yma. Gofal sydd ei angen, i ddiogelu'r 'palas' hwn.

Tŷ llythrennol sydd gennym yn y gerdd 'Yn y Tŷ', ond tŷ a adawodd ei ôl ar Waldo yn dilyn ymweliad â chyfaill. Darganfyddwn wrth ddarllen y gerdd mai noddfa i hen berlau llenyddol ydyw'r tŷ hwn:

Yn **y tŷ** mae perl nas câi
Elw, pe chwiliai'r llawr a'r llofft.

Ac

Yn **y tŷ** mae gwedd a gwib
Y mesurau a'r 'Vers Libre'.

Mae'n siŵr fod Waldo wrth ei fodd yn y tŷ hwn, yn ymgolli yn y farddoniaeth glasurol a oedd yno 'lle clymir clod/Bardd a beirdd oedd cyn ein bod.'

Yr ail symbol ym marddoniaeth Waldo yr wyf am ei thrafod ydyw symbol 'yr adar'. Gwelir cyfeiriadau at amrywiaeth o adar yn ei gerddi, megis yr ehedydd a'r wennol ynghyd â chyfeiriadau cyffredinol at adar.

Ceir cyfeiriad at adar yng nghaniad olaf y gerdd 'Tri Bardd o Sais a Lloegr', sef y caniad i'w wraig Linda. Diolch i Loegr a wna'r bardd am yr atgofion llon,[48] y rhai a gafodd ef yng nghwmni ei wraig yno cyn iddi farw:

A'th **adar cerdd** a dail y coed
Yn canu o gylch fy Linda lon,
Cydganu â mi amdani hi
Yn dwyn y fraint o dan y fron.

Cofio am ei beichiogrwydd hi y mae'r bardd trwy gyfrwng y ddelwedd hafaidd uchod. Clywn yr adar yn ymuno yn eu dathliadau, yn '(c)ydganu' â'r bardd dros ei falchder ef am newyddion a chyfnod beichiogrwydd Linda.

O blith yr adar, yr ehedydd a ymddengys fwyaf cyson yn *Dail Pren*. Un gerdd lle gwelir yr ehedydd ydyw 'Ar Weun Cas' Mael'. Ystyrier dechrau'r ail bennill yn benodol:

A heddiw ar adegau clir
Uwchben yr oerllyd, dyfrllyd dir
Dyry'r **ehedydd** ganiad hir

Ehedydd go iawn sydd yma, ond ceir symbolaeth bellach i'r ddelwedd hon. 'Hyder a hoen yr awen wir/A gobaith bro' ydyw i'r bardd. Cynrychiolaeth o ddelfryd Waldo ydyw; y gobaith y gall y fro, ac yna'r ddynoliaeth ehangach, eu codi eu hunain yn uchel tua rhyddid yr awyr a'r nefoedd megis yr ehedydd ei hun. Ymddengys yr ehedydd am yr eildro ym mhennill olaf y gerdd: 'Fel i'r **ehedydd** yn y rhod/Dyro o'th lawr y nwyf a'r nod'. Gweddïo ar Dduw Ei hun y mae'r bardd, fel y cawn godi unwaith yn rhagor, megis yr ehedydd, i'w wasanaethu Ef trwy gyfrwng ein doniau fel dynoliaeth, 'Dysg inni feithrin er dy glod/Bob dawn a dardd.'

---

[48] Rhys, R. (gol). (1981). *Cyfres y Meistri 2: Waldo Williams*. Christopher Davies: Llandybïe. (t.118) – cyfeiriaf y darllenydd at y dyfyniad canlynol: 'hyd nes yr aethom ni ryw wylie Pasg i lawr i Netherstowie ac Alfoxton – man hynny lle bu Wordsworth a Coleridge. Fi a Linda lawr fan'ny – a fan'ny y dechreues i deimlo'n well chi'n gweld.'

Ceir symbolaeth wahanol i'r ehedydd yn y gerdd 'Cwmwl Haf':

> Bwrw llond dwrn o **hedyddion** yma a thraw
> I alw cymdeithion y dydd,
> Yn eu plith yr oedd anrhydedd llawer llinach.

Ymdebyga'r 'hedyddion' i negeswyr yn y gerdd hon, yn fy marn i. Eu dyletswydd yw mynd ati i alw ar gyfeillion y bardd, boed feirdd neu ffermwyr y tylwythau lleol. Ceir hanes hir o anrhydedd yn perthyn i'r cyfeillion hyn y mae'r bardd yn dymuno cyfarfod â hwy. Wrth ystyried cefndir y gerdd hon, a luniwyd tua'r adeg pan oedd Waldo yn byw am gyfnod yn Lloegr, cyflwyna Alan Llwyd ddehongliad gwahanol i symbol yr 'hedyddion', sef bod 'ei hiraeth yn galw ar hedyddion ei ddychymyg i oleuo'r dydd, i ganu gobaith ac i gynnig hyder'.[49] Yr oedd hwn yn gyfnod tywyll ym mywyd Waldo, ac y mae'r dehongliad yn taro deuddeg imi wrth i'r bardd droi at ei awen a'i gelfyddyd i chwalu'r tywyllwch yma a chanfod y goleuni yn ei fywyd. Gellir darllen hyn hefyd fel ymdrech Waldo i gysylltu â'r sawl a oedd yn agos ato yn ei fywyd, y sawl a all gynnig cysur iddo yn ei gyfnod tywyll.

Cân y bardd o gorff a phersbectif yr ehedydd ei hun yn y gerdd 'Caniad Ehedydd'. Cân o foliant ydyw, a'r pennill cyntaf, yn fy marn i, yw'r gorau, o ran y delweddu:

> Ymrôf i'r wybren
> Yn gennad angen
> Fel Drudwy Branwen
>     Yn nydd cyfyngder.
> Codaf o'r cyni
> A'm cân yn egni
> Herodr goleuni
>     Yn yr uchelder.

[49] Llwyd, A. (2014) *Waldo - Cofiant Waldo Williams: 1904-1971*. Y Lolfa: Talybont. (t.314).

Yn yr un modd ag yn y gerdd ‘Cwmwl Haf’, negesydd (neu ‘(g)ennad’) ydyw’r ehedydd. Cennad mewn cyfyngder ydyw, cennad i ryddhau poen a dioddefaint, megis y drudwy a achubodd Franwen yn y chwedl enwog. Codi fry rhag y dioddefaint a wna hwn gan daenu ei gân o oleuni a heddwch ar hyd yr awyr. Hoffaf drosiad y bardd, ‘Herodr goleuni’, oherwydd llwydda i ddyfnhau’r ddelwedd o’r genhadaeth. Gallaf weld Waldo ei hun yn y ddelwedd hon gyda’i farddoniaeth ef yn ffynhonnell o oleuni i’r Cymry hyd heddiw.

Aderyn arall a ymddengys mewn dwy o gerddi Waldo ydyw’r wennol. Mae’r aderyn hwn yn ganolog i’r cywydd ‘Daw’r Wennol yn Ôl i’w Nyth’ a cheir cyfeiriad ati yn y gerdd ‘Gwanwyn’.

Yn y gerdd ‘Daw’r Wennol yn Ôl i’w Nyth’, yn ôl Dafydd Owen, ceir ‘(d)arlun heddychwr o’r distryw a ddaw i gymdogaeth yn sgil darpariaeth rhyfel’.[50] Pryderu am orthrwm y wladwriaeth ar ei fro a wna’r bardd yn y cywydd arbennig hwn. Colled o ran tir a bywoliaeth sydd yma wrth i’r wladwriaeth feddiannu tir amaethyddol yr ardal: ‘I’w hathrofa daeth rhyfel/I rwygo maes Crug y Mêl’. Gobaith y bardd yw y bydd yr hen ddiwylliant Cymreig heddychlon yn dychwelyd yn y dyfodol, megis y wennol. Symbol o’r hyder a’r gobaith yma ydyw’r wennol yn y gerdd hon, ac mae’n symbol bwysig iawn, er mai ond yn y llinell gyntaf a’r llinell olaf y cyfeirir ati.

Golwg ddinistriol ar y gwanwyn a geir yn y gerdd ‘Gwanwyn’. Cerdd a luniwyd ychydig wedi terfyn yr Ail Ryfel Byd yw hon, ond erys cysgod y rhyfel yn drwm ar hyd y fro oherwydd gormes y gors. Ceir cyfeiriad at y wennol ym mhennill olaf y gerdd: ‘Wele, i mewn trwy lygaid y **wennol** chwim, chwim y dylifa’r daith’. Dyma wyrdroi’r modd y byddwn fel arfer yn synied am wennol yn hedeg ar ei thaith. Dyma’r daith yn hytrach yn

[50] Owen, D. (1972). *Dal Pridd y Dail Pren*. Christopher Davies: Llandybïe. (t.44)

dylifo i mewn iddi. Ac nid gwanwyn ffrwythlon a welwn trwy lygaid y wennol, ond 'anialwch' yn dilyn dinistr enfawr y rhyfel.

Y goeden ydyw'r drydedd symbol yr wyf am ei thrafod yn yr adran hon. Mae'r goeden wrth wraidd syniadaeth y gyfrol, hyd yn oed ei theitl *Dail Pren*. Gwyddom mai o Lyfr y Datguddiad y daeth yr ysbrydoliaeth am deitl y gyfrol.[51] Gwelir elfennau o'r goeden yn gyson yng ngherddi'r gyfrol, y dail, y pren a'r gwreiddiau.

Gwelir y cyfeiriad cyntaf at y symbol hon tua diwedd y gerdd 'Mewn Dau Gae', yn llinell olaf y pumed pennill yn benodol:

> Yr oedd rhyw ffynhonnau'n torri tua'r nefoedd
> Ac yn syrthio'n ôl a'u dagrau fel **dail pren**.

Yn ôl Dafydd Owen, 'ffynnon diolch pob calon'[52] sydd yma yn codi tuag at y nefoedd ac at Dduw ac yna'n disgyn yn ôl megis dagrau a fydd yn iacháu'r ddynoliaeth. Gweledigaeth y bardd ydyw, gan weld y ddaear ar ei newydd wedd wrth iddo weld '(a)wen yn codi o'r cudd, yn cydio'r cwbl'.

Cyfeiriad serchus mewn perthynas â'r un ddelwedd a geir yn y gerdd 'Oherwydd ein Dyfod' wrth i'r bardd ddisgrifio'r berthynas rhwng dau gariad: 'A'n myned allan i fanfrig **gwreiddiau**'. Dechreuad a dyfodiad coeden berthynas sydd yma yn fy marn i, gosod y gwreiddiau a'u gweled yn dechrau ymestyn. Datblyga'r berthynas gan symud trwy 'afalau **perllannoedd**' ac ymlaen '(i) oleuni yr aelwydydd.'

[51] Lewis Jones, B. (1981). Mewn Dau Gae. Yn: Rhys, R. (gol). *Cyfres y Meistri 2: Waldo Williams*. Christopher Davies: Llandybïe. (t.157) – Wrth drafod y gerdd 'Mewn Dau Gae', cyfeiria Bedwyr Lewis Jones at eiriau Llyfr y Datguddiad sydd yn gorffen "a dail y pren oedd i iacháu'r cenhedloedd."
[52] Owen, D. (1972). *Dal Pridd y Dail Pren*. Christopher Davies: Llandybïe. (t.61)

Gwelir dau gyfeiriad gwahanol at ddail a choed yn 'Tri  Bardd o Sais a Lloegr'. Mae'r cyfeiriad cyntaf i'w weld yn yr ail ganiad, sef y caniad i'r bardd John Keats. Dyma'r dyfyniad:

> A gwanwyn oedd y dyddiau mawr
> A bery byth yn **nail ei bren**.

Yn ôl Alan Llwyd, cyfeiriad at ddatganiad enwog gan Keats ydyw'r ail linell uchod: 'That if poetry comes not as naturally as the Leaves to a tree it had better not come at all.'[53] Dyma waddol Keats, cynnyrch 'y dyddiau mawr', yr un gwanwyn hwnnw a esgorodd ar ei gyfnod creadigol olaf. Awgryma Waldo mai Keats ei hun ydyw'r goeden, ac yn wahanol i fyd natur, erys ffresni ei wanwyn creadigol ar dudalennau ei waith cyhoeddedig.

Daw'r ail gyfeiriad yng nghaniad olaf y gerdd, sef y caniad i Linda:

> A'th adar cerdd a **dail y coed**
> Yn canu o gylch fy Linda lon

Gwelwyd y cyfeiriad hwn eisoes gennyf wrth drafod delwedd yr adar, ond gwelir 'dail y coed' yn chwarae eu rhan yn yr atgof melys hwn. Clywir chwibanu a sisial y dail yma, a hynny'n cyfoethogi'r ddelwedd ymhellach.

Egyr y gerdd heb iddi deitl gyda delwedd o wreiddiau a choeden:

> Nid oes yng **ngwreiddyn** Bod un wywedigaeth
> Yno mae'n **rhuddin** yn parhau.

Cefndir Sgandinafaidd sydd i gysyniad y '(g)wreiddyn Bod' yn ôl Alan Llwyd, y gred honno mai coeden onnen, a elwir Yggdrasil, yw'r ymgorfforiad o fywyd a bodolaeth. 'Y goeden

[53] Llwyd, A. (1997). *Y Grefft o Greu: Ysgrifau ar Feirdd a Barddoniaeth*. Cyhoeddiadau Barddas: Llandybïe

onnen hon yw pren y bywyd ym mytholeg Hen Norwyeg.'[54] Nid oes yn y gwreiddyn hwn unrhyw wendid. Awgrymir y cadernid yn yr ail linell trwy gyfrwng y berfenw 'parhau'.

Dau gyfeiriad tuag at y goeden a welir yn y gerdd 'Pa Beth yw Dyn?'. Mae'r cyntaf yn disgrifio'r weithred a'r ymdeimlad o 'adnabod' trwy gyfrwng y ddelwedd o wreiddyn:

> Beth yw adnabod? Cael un **gwraidd**
> Dan y **canghennau**.

Wrth gael un gwraidd yn y ddaear, gallwn gyd-dyfu yng nghwmni'r gwreiddiau eraill. Dyma ymdrech gan y bardd eto i bwysleisio pwysigrwydd closrwydd y ddynoliaeth yn nhermau twf a pharhad bywyd y goeden, wrth iddo ddatblygu'r syniad o 'wreiddyn Bod'. Yr ail gyfeiriad at y ddelwedd hon yw:

> Beth yw gweithio ond gwneud cân
> O'r **coed** a'r gwenith?

'Canu yw ail-amlygu'r llawenydd hwnnw sy'n gynhenid yn y cread a mwyaf cydnaws â bywyd dyn', meddai Dafydd Owen.[55] Talu teyrnged i'r sawl sydd yn gweithio mewn harmoni â'r ddaear a byd natur y mae'r bardd yma, megis y seiri coed a'r amaethwyr. Dyma ddelfryd y bardd eto o bobl yn caru eu bro a byd natur, a dyna yw gweithio i Waldo: nid gweithwyr diwydiant neu gwrswyr elw, ond pobl y fro a'r tir.

Darlun dinistriol a geir trwy gydol y gerdd 'Cân Bom', cerdd a luniwyd ym 1946, flwyddyn ar ôl i'r Ail Ryfel Byd ddirwyn i ben. Disgrifio gweithredoedd Angau y mae'r bardd trwy gyfrwng delweddau o goed yn eu marwolaeth:

> Ef yw'r pryf yn y **pren**,
> Gwahanglwyf y **canghennau**.

---

[54] Llwyd, A. (2014) *Waldo - Cofiant Waldo Williams: 1904-1971*. Y Lolfa: Talybont. (t.74)
[55] Owen, D. (1972). *Dal Pridd y Dail Pren*. Christopher Davies: Llandybïe. (t.68-69)

Dyma Angau, ‘y cydymaith tywyll’, chwedl ‘Geneth Ifanc’, yn ei anterth. Araf iawn ydyw Angau yn ôl ‘y bom’ sydd yn llefaru trwy’r gerdd ac mae’r bardd yn defnyddio’r ddelwedd o bryfed yn bwydo ar y pren a’r canghennau’n dioddef yn eu henoed i ddelweddu’r arafwch hwnnw. Felly, symbol o fywyd ydyw’r goeden yn y gerdd hon. Yn marn R.M. Jones, gellir categoreiddio’r gerdd hon o fewn ‘chwe chân ‘hyll’ a melltithiol’[56] y gyfrol, sef ‘Y Plant Marw’, ‘O Bridd’, ‘Gwanwyn’, ‘Diwedd Bro’, ‘Yr Hwrdd’ a ‘Cân Bom’. Cytunaf yn gryf oherwydd i’r bardd amlygu ei agweddau gwrth-drais a gwrth-ryfelgar trwy’r gerdd hon, gan wneud hynny trwy lynu wrth ddelwedd y goeden.

Y gerdd olaf yn y drafodaeth hon ar ddelwedd y goeden ydyw ‘Wedi’r Canrifoedd Mudan’. Gwelir delweddau’r ‘rhuddin’ a ‘gwreiddyn Bod’ yn y gerdd hon, megis yn y gerdd heb iddi deitl (‘Nid oes yng ngwreiddyn Bod un wywedigaeth’), a theyrnged ydyw’r gerdd hon i ferthyron crefyddol Cymreig yn enw eu ffydd.[57] Gwelir y cyfeiriad at ddelwedd y goeden ym mhennill cyntaf y gerdd:

> Un yw craidd cred a gwych adnabod
> Eneidiau yn un â’r **rhuddin yng ngwreiddyn Bod**.

Dywed y bardd fod eneidiau’r merthyron hyn (enwir dyrnaid ohonynt yn y gerdd ei hun) yn gymysg â rhuddin, neu galon, gwreiddyn Bod oherwydd eu hymlyniad tuag at eu cred a’r cydweithio rhyngddynt. Roeddent yn diwallu elfennau’r bywyd delfrydol yng ngweledigaeth Waldo ac maent yn haeddu eu presenoldeb yn y goeden arbennig hon.

I gloi’r drafodaeth hon ar undod delweddol *Dail Pren*, cyfeiriaf eto at eiriau Alan Llwyd: ‘Un ffordd o sicrhau undod artistig yw trwy ddefnyddio delweddau – trosiadau a chymariaethau – sy’n perthyn i fyd y gerdd.’[58] Credaf i Waldo ddefnyddio delweddau sydd yn perthyn i’w fyd

[56] Jones, R.M. (2006). Waldo’r Cwymp a’r Farn. Yn: Walford Davies, D. & Walford Davies, J. (goln). *Cof ac Arwydd: Ysgrifau Newydd ar Waldo Williams*. Cyhoeddiadau Barddas: Llandybïe. (t.82)
[57] Llwyd, A. (2014). *Waldo – Cofiant Waldo Williams: 1904-1971*. Y Lolfa: Talybont. (t.321)
[58] Llwyd, A. (2010). *Crefft y Gynghanedd*. Cyhoeddiadau Barddas: Llandybïe. (t.194)

ef ac i fyd y gyfrol gyfan, yn sicr trwy gyfrwng ei ddefnydd o ddelwedd a symbol y goeden yn benodol. Mae defnydd y bardd o ddelweddau'r tŷ a'r adar hefyd yn symbolau go iawn o gadernid a chlydwch bywyd. Y coed yw cartref yr adar, ac o goed y llunnir trawstiau tai. Wrth bwyso arnynt, ymdebygwn ninnau i'r adar yn y coed. Drwy undod y ddelweddaeth driphlyg hon, llwyddodd Waldo i sicrhau elfen gref o undod yn yr amrywiaeth o gerddi sydd yn *Dail Pren*.

**Odl a chynghanedd yn ei gerddi rhydd**

Cafodd Waldo ei fagu ar aelwyd heddychlon mewn cyfnod a oedd yn profi'r gwrthdaro rhwng mudiadau Rhamantiaeth a Moderniaeth mewn barddoniaeth. Barddoniaeth delynegol oedd prif ffrwd Waldo yn ei ganu cynnar hyd at ddiwedd y 1930au (y mae'r gerdd enwog 'Cofio' a'i awdl fawr 'Tŷ Ddewi' yn perthyn i'r canu cynnar hwn). Yn ôl Dafydd Owen '(c)erddi rhamantaidd y momentau teimladwy' oeddynt,[59] cyn i'w ganu diweddarach droi'n foel ac yn gadarn ei wead (ei gywydd mawr 'Y Tŵr a'r Graig'). Ac ar ôl cyfnod yr Ail Ryfel Byd, yn bennaf mewn cerddi megis 'Preseli' a 'Mewn Dau Gae', gwelir defnydd o nodweddion y canu caeth ymhlith ei gerddi rhydd.

Dywed R. Geraint Gruffydd:

> ...mor bwysig yn ei feddwl oedd yr hyn yr oedd am ei ddweud, nes i'r mowld telynegol a etifeddasai gracio dan y straen ac fe fabwysiadodd rai o nodweddion y canu caeth yn ei ganu rhydd.[60]

[59] Owen, D. (1972). *Dal Pridd y Dail Pren*. Christopher Davies: Llandybïe (t.13)
[60] Geraint Gruffydd, R. (1997). Waldo Williams. Yn: Rhys, R. (gol.) *Y Patrwm Amryliw – Cyfrol 1*. Cyhoeddiadau Barddas: Llandybie. (t.207)

Ystyrier y ddwy gerdd 'Cofio' a 'Preseli'. Un gerdd a gyfansoddwyd ym 1931, a'r llall ym 1946. Cymharer naws delynegol llinellau agoriadol 'Cofio': 'Un funud fach cyn elo'r haul o'r wybren,/Un funud fwyn cyn delo'r hwyr i'w hynt' â llinellau dwys ac ingol 'Preseli': 'Mi welais drefn yn fy mhalas draw./Mae rhu, mae rhaib drwy'r fforest ddiffenestr.' Dyma arddangos y newid yng nghrefft Waldo rhwng y ddau gyfnod hyn, y grefft yn dwysáu tan ddylanwad presenoldeb y gynghanedd yn ei gerddi 'rhydd'.

Yn ei ysgrif 'Pa Wyrth Hen eu Perthynas?: Waldo Williams a 'Chymdeithasiad Geiriau', trafoda Jason Walford Davies ddefnydd Waldo o arddodiaid (neu 'eiriau bach') yn ei gerddi. Yn ôl y beirniad hwn, 'y mae eu grym cydgysylltiol, cyfannol sylweddol yn hydreiddio holl waith Waldo'.[61] Teimlaf, wrth fachu un o eiriau'r beirniad, fod yna le i drafod sawl enghraifft o sut y mae'r gynghanedd hithau'n 'hydreiddio' cerddi rhydd Waldo, megis 'Preseli', 'Eirlysiau' ac 'Yr Heniaith'.

Enghraifft o gerdd 'rydd' draddodiadol lle gwelir y gynghanedd ar waith yw'r gerdd enwog 'Mewn Dau Gae'. Credaf fod y gynghanedd yn gyfrwng i'r bardd adleisio cyffro ac emosiwn ei brofiad o ganfod gwirionedd bywyd yn y bwlch rhwng y ddau gae. Dywed Alun Llywelyn-Williams am farddoniaeth Waldo: 'yr oedd yn gweld y byd o'i gwmpas â llygaid plentyn, yn eglur arswydus, a'i synhwyrau i gyd yn effro ac yn fyw.'[62] Mae hyn yn sicr yn wir am 'Mewn Dau Gae' gydag elfennau'r gynghanedd yn arf i'r bardd wrth wneud hynny.

Gellir dyfynnu llinellau megis 'oddi fry uwch y chwibanwyr gloywbib, uwch callwib y cornicyllod' ac 'y brwyn lu yn breuddwydio'r wybren las' fel enghreifftiau arbennig o sut mae'r gynghanedd wir yn bywiocáu'r gerdd ac yn awgrymu cyffro'r bardd. Gwelir sut y

[61] Walford Davies, J. (2006). 'Pa Wyrth Hen eu Perthynas?': Waldo Williams a 'Chymdeithasiad Geiriau' Yn: Walford Davies, D. a Walford Davies, J. (goln). *Cof ac arwydd: ysgrifau newydd ar Waldo Williams*. Abertawe: Cyhoeddiadau Barddas. (t.164)

[62] Llywelyn Williams, A. (1977). Waldo Williams. Yn: Nicholas, J. (gol). *Waldo: Cyfrol deyrnged i Waldo Williams*. Llandysul: Gwasg Gomer. (t.103)

mae'r cytseiniaid caled a'r geiriau cyfansawdd yn yr enghraifft gyntaf yn deffro synhwyrau'r darllenydd ac yn fwy sionc ei harddull, megis plentyn ifanc, tra bo yna gyffro tawelach yn yr ail enghraifft gyda'r cytseiniaid meddal yn awgrymu mudandod a myfyrdod y profiad. Annisgwyl iawn ydyw defnydd y bardd o'r berfenw 'breuddwydio' yn y llinell hon, ond mae'n ddewis effeithiol iawn ac yn gweddu i sŵn meddal y llinell. Mae'r bardd yn ymestyn ffiniau'r gynghanedd draddodiadol gyda llinell o sain deirodl, 'a thrwyddynt, rhyngddynt, amdanynt ymdaenai' gyda'r odl ychwanegol yn adlewyrchu cyffro plentyn nad yw'n medru rheoli ei deimladau.

Gwelir y bardd yn defnyddio'r dechneg 'gwyro mewnol' o fewn y gerdd hefyd, techneg y tynnodd Robert Rhys sylw ati yn ei ysgrif 'Dysgu Darllen', yn *Sglefrio ar Eiriau*.[63] Amrywia'r bardd rhwng defnyddio odlau llawn ac odlau proest ar hyd y gerdd gan chwarae â disgwyliadau'r darllenydd. Enghraifft o hyn yw'r trydydd pennill lle gwelir y bardd yn dechrau gydag odl broest yn llinellau 2 a 4 (bobl/cwbl) cyn troi tuag at odl lawn yn llinellau 6 ac 8 (drom/amdanom). Mae'r dechneg hon yn ychwanegu at gyffro a mawredd y profiad sydd y tu cefn i'r gerdd; gwelwn feddwl y bardd ar ras trwy gyfrwng y gwyro yma.

Gwelir llawer o enghreifftiau o'r bardd yn defnyddio odlau mewnol o fewn llinellau hefyd, megis 'neu pwy, pwy oedd y saethwr, yr eglurwr sydyn?' ac 'y daw'r herwr, daw'r heliwr, daw'r hawliwr i'r bwlch.' Eto'r ymdeimlad o gyffro, a bywiogrwydd y bardd sydd yma gyda'r odlau yn pentyrru ar hyd nifer o linellau gan gynnwys 'Ar ôl imi holi'n hir yn y tir tywyll'.

Rhan o gyfrinach ac apêl barddoniaeth Waldo, mi gredaf, yw'r modd y mae'r farddoniaeth yn cyfuno elfennau o'r canu rhydd a'r canu caeth. Fel yn achos yr odl broest, amlyga'r duedd

[63] Rhys, R. (1992). Dysgu Darllen. Yn: Rowlands, J. (gol.) *Sglefrio ar Eiriau*. Gwasg Gomer. Llandysul. (t.160)

hon ei hoffter o egwyddor ‘gwahuniaeth’ (a drafodir ymhellach isod). Yn y canu caeth, ceir cynghanedd ym mhob llinell. Yn y canu rhydd, dim oll, gan amlaf. Yr hyn a wnaeth Waldo ydoedd cyflwyno’r naill i’r llall, a hynny er mwyn goleuo ambell ymadrodd neu ddelwedd. Meddai ef ei hun: ‘ar ôl imi ddechrau sgrifennu cywyddau hirion, aeth fy nghanu rhydd yn wahanol o ran rhuthm.’[64] Teimlaf fod y geiriau hyn yn crynhoi’r hyn a ddywedais ar ddechrau’r adran, o ran y newid yn arddull ei ganu, o’r canu telynegol, cynnar i’r canu mwy cymhleth ac aeddfetach yn ddiweddaraf.

Defnyddir amrywiaeth o fesurau gan Waldo yn y gyfrol, ond cyfansoddwyd cyfran helaeth o’r cerddi gan ddefnyddio mesur mydr ac odl traddodiadol (35 o’r 66 cerdd sydd yn y gyfrol). Gwelir nifer o sonedau a chywyddau hefyd yn y gyfrol, ynghyd ag enghreifftiau o awdlau, telyneg, y wers rydd a chyfres o hir-a-thoddeidiau.

Er y defnydd yma o fesurau traddodiadol Cymreig, arbrofa Waldo droeon â chraidd y mesurau hyn. Ceir pedair cerdd mewn mydr ac odl lle y defnyddir odlau proest ar ddiwedd llinellau, megis ‘Geneth Ifanc’ ac ‘Y Plant Marw’, lle y gwelir awydd y bardd i ddefnyddio’r traddodiadol mewn modd gwreiddiol.

Wrth ystyried amrywiaeth *Dail Pren* o ran ei mesurau, elfen a drafodwyd gennyf yn y bennod flaenorol[65], un nodwedd a ddefnyddiwyd gan Waldo mewn pedair o gerddi’r gyfrol, sef ‘Geneth Ifanc’, ‘Y Plant Marw’, ‘Yr Heniaith’ a ‘Gwanwyn’, ydyw’r odl broest. Trafodaf y cerddi yn y drefn hon, sef y drefn fel yr ymddangosant yn y gyfrol.

[64] Owen, D. (1972). *Dal Pridd y Dail Pren*. Christopher Davies: Llandybïe. (t.13)
[65] Gweler tt.16-20, lle dadansoddir ymatebion y beirdd i’r cwestiwn am nodweddion pwysicaf cyfrol safonol o farddoniaeth.

Er mwyn eglurder, dyma ddiffiniad Geiriadur Prifysgol Cymru o broest, sef 'math o ledodl neu hanner odl a'r cytseiniaid diweddol yn cyfateb, ond y llafariaid yn amrywio'.[66] Amlygir hyn wrth imi ddyfynnu o'r cerddi dan sylw.

Mae defnydd Waldo o'r odl broest ar ei gwedd symlaf yn y gerdd 'Geneth Ifanc'. Gosodir y gerdd ar ffurf pedwar pennill, gyda phob un yn bedwar llinell o hyd. Dyma'r pennill cyntaf:

> Geneth ifanc oedd yr ysgerbwd carreg.
> Bob tro o'r newydd mae hi'n fy **nal**.
> Ganrif am bob blwydd o'm hoedran
> I'w chynefin af yn **ôl**.

Gwelir bod Waldo wedi dewis odl broest ar ddiwedd llinellau 2 a 4: 'nal / yn ôl'. Mae'r cytseiniaid yn cyfateb yn union ac mae'r llafariaid yn wahanol.

Dilyna'r tri phennill dilynol yr un patrwm gyda'r proest yn ymddangos ar ddiwedd llinellau 2 a 4. Dyfynnaf weddill y gerdd gan amlygu'r odlau proest o fewn y penillion:

> Rhai'n trigo mewn heddwch oedd ei phobl,
> Yn prynu cymorth daear â'u **dawn**.
> Myfyrio dirgelwch geni a phriodi a marw,
> Cadw rhwymau teulu **dyn**.
>
> Rhoesant hi'n gynnar yn ei chwrcwd oesol.
> Deuddeg tro yn y croeso **Mai**
> Yna'r cydymaith tywyll a'i cafodd.
> Ni bu ei llais yn y mynydd **mwy**.
>
> Dyfnach yno oedd yr wybren eang
> Glasach ei glas oherwydd **hon**.

[66] Geiriadur Prifysgol Cymru (ar-lein). Diffiniad 'proest'. (Mynediad ar 26ain o Fedi, 2020). Adalwyd o http://welsh-dictionary.ac.uk/gpc/gpc.html

Cadarnach y tŷ anweledig a diamser
Erddi hi ar y copâu **hyn**.

Hoffaf rythm cyffredinol y gerdd wrth i'r llinellau symud bob yn ail o ran eu haceniad: hynny yw, diwedda llinellau 1 a 3 yn ddiacen (neu'n lluosillafog) ymhob pennill, ac y mae'r pwyslais y geiriau'n cwympo ar y goben, y sillaf olaf ond un, megis '**car**reg/**hoed**ran', '**phob**l/**mar**w' (gan gymryd mai 'pobol' ydyw'r ynganiad yma), '**oes**ol/**caf**odd' ac '**e**ang/di**ams**er' tra bo'r llinellau proest yn diweddu'n acennog (neu'n unsill) gyda'r pwyslais ar yr un sillaf honno. Ac oherwydd yr odl broest, ceir elfen gref o 'wahuniaeth', chwedl R.M. Jones.[67] Llwydda'r cytseiniaid yn yr odl i gadw'r ymdeimlad o undod neu uniaeth, ond wrth amrywio'r llafariaid, mae'r gwahaniaeth hwn yn rhoi arbenigrwydd i'r gair unigol, ac yn cyfrannu at yr ymdeimlad o chwithdod sydd yn y gerdd.

Diddorol oedd darllen cyfeiriad Tudur Hallam at eiriau Waldo ei hun ynghylch yr odlau proest yn y gerdd uchod: 'dod fel yna a wnaeth y pennill, a bodlonais arno...'[68], meddai'r bardd. Wrth ystyried patrwm sefydlog yr odli proest ar hyd y gerdd, codir y cwestiwn: a adeiladodd Waldo'r gerdd yn fwriadol ar sail y pennill a fodlonodd arno? Gall yr atebion esgor ar drafodaeth bellach, ond ni wadaf eiriau Waldo oherwydd, yn fy marn i, nid yw'r bwriad neu'r siawns o ddefnyddio'r odlau proest yn tynnu oddi ar grefft y gerdd. Cytunaf â'r hyn y mae R. Geraint Gruffydd yn ei ddweud, sef bod 'yr argraff o gload a rydd y ddyfais yn gwrth-gyferbynnu'n berffaith â'r rhyddid a arferir o ran hyd y llinellau.'[69]

Perthyn mwy o gywreindeb i'r odlau proest yn y gerdd 'Y Plant Marw'. Dyma'r gerdd fwyaf cywrain o'r pedair o ran y proestio yn benodol yn fy marn i. Tri phennill sydd i'r gerdd, gyda

---

[67] Jones, R.M. (2005). *Meddwl y Gynghanedd*. Cyhoeddiadau Barddas: Llandybïe. (t.84-98)
[68] Thomas, O. (gol) (2006.). *Llenyddiaeth Mewn Theori*. Gwasg Prifysgol Cymru: Llandybïe. (t.159)
[69] Geraint Gruffydd, R. (2006). 'Geneth Ifanc': Rhai Sylwadau Yn: Walford Davies, D. a Walford Davies, J. (goln). *Cof ac arwydd: ysgrifau newydd ar Waldo Williams*. Cyhoeddiadau Barddas: Abertawe. (t.137)

chwe llinell ymhob un, ac mae'r patrwm odli fel a ganlyn: *a b c a b c*. Dyma ddyfynnu'r pennill cyntaf er mwyn dangos y patrwm:

> Dyma gyrff plant. Buont farw yn nechrau'r *nos*.
> Cawsant gerrig yn lle bara, yn syth o'r ffyn **tafl**.
> Ni chawsant gysgod gwal nes gorwedd yn <u>gyrff</u>.
> Methodd yr haul o'r wybr â rhoddi iddynt ei *wres*,
> Methodd hithau, eu pennaf haul, a'i chusan a'i **chofl**,
> Oherwydd cerrig y byd, oherwydd ei <u>sarff</u>.

Fel y nodais uchod, patrwm *a b c a b c* sydd i'r pennill. Golyga hynny fod y llinellau wedi'u paru o ran yr odl broest: llinellau 1 a 4 (nos / wres), 2 a 5 (tafl / chofl) a 3 a 6 (gyrff / sarff). Eto, dyma ddatblygu elfen o wahaniaeth y tu fewn i'r wahuniaeth ymhellach, wrth i'r bardd ymestyn y bwlch rhwng y ddeuair sy'n odli'n broest â'i gilydd. Eto, o'r tu mewn i strwythur y pennill chwe llinell, mae'r odl broest, er nad yw'n ymddangos bob yn ail linell yn awr, yn ddigon cryf i gynnal yr ymdeimlad o undod.[70]

Trafodir y gerdd hon, a'r odl broest ynddi, gan Alan Llwyd yn y bennod 'Diweddebau Waldo Williams' yn ei lyfr *Anghenion y Gynghanedd.*[71] Ceir cyfeiriadau hefyd at 'Yn y Tŷ' a 'Die Bibelforscher' a'r enghreifftiau o broestio sydd ynddynt.

Cawn symudiad yn ôl tuag at odli bob yn ail linell yn y gerdd 'Yr Heniaith', a chyflwynir ynddi elfen grefftus arall, ar wahân i'r patrwm odli isod, sef cyfatebiaethau cynganeddol. Dilyna'r un patrwm odli ag sydd yn y gerdd 'Geneth Ifanc', gydag odl broest bob yn ail llinell, ond wedi dweud hynny, rhaid nodi mai penillion wyth llinell o hyd sydd yn 'Yr Heniaith' gyda dwy odl broest wahanol ynddynt. Eto, gwelir yma'r bardd yn cyflwyno elfen bellach o amrywiaeth yn ei ddefnydd o odli proest mewn pennill, ac yn wir, fel y gwelir isod,

[70] Ceir trafodaeth ddyfnach ar y gerdd hon yn nes ymlaen yn y bennod hon oherwydd saif y gerdd fel arwydd o ddatblygiad a newid cyfnod wrth drafod awen Waldo.
[71] Llwyd, A. (2007). *Anghenion y Gynghanedd*. Cyhoeddiadau Barddas: Llandybïe (tt.317-319)

torrir y patrwm odli cyn iddo gael ei sefydlu'n iawn yn y pennill cyntaf, gan nad odli na phroestio y mae 'heno' a 'hon', eithr cynganeddu â'i gilydd. Dyma bennill cyntaf y gerdd (gyda'r odl broest mewn print bras a'r gynghanedd mewn ffont italig):

Disglair yw eu coronau yn llewych llysoedd
A thanynt hwythau. Ond nid harddach na **hon**
Sydd yn crwydro gan ymwrando â lleisiau
Ar ddisberod o'i gwrogaeth **hen**;
Ac sydd yn holi pa yfory a fydd,
Holi yng nghyrn y gorllewinwynt *heno* –
Udo gyddfau'r tyllau a'r ogofâu
Dros y rhai sy'n annheilwng o *hon*.

At yr odli proestiog, gwelir cysylltiad rhwng diwedd llinellau 1 a 3 hefyd. Nid cysylltiad trwy odl sydd yma, ond ceir cyfatebiaeth o ran yr aceniad a'r cytseiniaid sydd yn bresennol. Cyfatebiaeth gynganeddol ydyw, fel yn achos 'heno' a 'hon', ond yn gytbwys o ran yr acennu:

'llysoedd / lleisiau'
(**ll** / **s *** **/ ll** / **s** * )

'a fydd / ogofâu'
( **f** / / g **f** / )

Gwelir y patrwm hwn yn y ddau bennill dilynol hefyd:

Ni sylwem arni. Hi oedd y goleuni, heb liw.
Ni sylwem arni, yr awyr a ddaliai'r **arogl**
I'n ffroenau. Dwfr ein genau, goleuni blas.
Ni chlywem ei breichiau am ei bro **ddiberygl**
Ond mae tir ni ddring ehedydd yn ôl i'w nen,
Rhyw ddoe dihiraeth a'u **gwahanodd.**
Hyn yw gaeaf cenedl, y galon oer

Heb wybod colli ei phum **llawenydd.**

Na! dychwel gwanwyn i un a noddai
Ddeffrowyr cenhedloedd cyn eu **haf.**
Hael y tywalltai ei gwin iddynt.
Codent o'i byrddau dros bob hardd yn **hyf.**
Nyni, a wêl ei hurddas trwy niwl ei hadfyd,
Codwn, yma yr hen feini annistryw**.**
Pwy yw'r rhain trwy'r cwmwl a'r haul yn hedfan,
Yn dyfod fel colomennod i'w ffenestri?

Dyma'r cyfatebiaethau cynganeddol:

'heb liw / goleuni blas'
( **b l** / / g l n **bl** / )
'yn ôl i'w nen / y galon oer'
( **l** **n** / / g **l** **n** / )
'un a noddai / ei gwin iddynt'
( **n**/**dd** * / g **n** /**dd** * )
'hadfyd / hedfan'
( **df * /** **df *** )

Yn *Meddwl y Gynghanedd*, cydnabu R.M. Jones fod Waldo yn un o gasgliad bach o feirdd (neu feirniaid) a ddatblygodd waith J. Morris-Jones o ran y gynghanedd,[72] ac y mae'r gynghanedd yn nodwedd yr oedd yn ei defnyddio'n aml yn ei gerddi rhydd, gyda'r dadansoddiad uchod yn enghraifft arall o'r elfen honno yn ei waith.

Y gerdd olaf o'r pedwarawd sydd yn cynnwys odlau proest ydyw 'Gwanwyn', cerdd a phedwar pennill iddi. Mae'n symud fesul cwpled proest ar hyd pedair o linellau hirion

[72] Jones, R.M. (2005). *Meddwl y Gynghanedd*. Cyhoeddiadau Barddas: Llandybïe. (t.28)

(amrywiant rhwng 13 ac 17 sillaf o hyd) ymhob pennill. Ceir un eithriad yn y gerdd lle ceir cwpled odledig fel yr amlygaf yn fuan. Dyma bennill agoriadol y gerdd:

> Allan o risgl rhygnog yr elmen hyd ei ysgafnder **gwyrdd**.
> Allan o'r ddaear rwygedig wasgedig haen ei hegin **hardd**.
> Na'ch twyller â'ch medr ymadrodd na'r hir **amynedd**.
> Allan o'ch gwydnwch at gyd-gnawd, llyngyr i'r mêr ac i'r **ymennydd**.

Gwelir y proest yn symud fesul cwpled uchod, a dilyna'r gerdd y patrwm yma hyd at y cwpled olaf ond un:

> Wele, i mewn trwy lygaid y wennol chwim, chwim y dylifa'r **daith**.
> Yng ngwaelod llygaid lloi bach ac ŵyn yn gorwedd, pranciau meysydd **maith**.

Dyma enghraifft arall o'r dechneg gwyro mewnol. Eto, dyma'r bardd yn chwarae â disgwyliadau'r darllenydd, ac o'r tu fewn i egwyddor gwahuniaeth yn torri ar draws ei arfer bellach o odli'n broest drwy gloi'r gerdd hon ag odl lawn. Dyma i mi ran o'r rheswm dros apêl barddoniaeth Waldo.

### 2.3. Beirniadaeth ymarferol: y ddwy elfen ar waith yn y gerdd 'Y Plant Marw'[73]

Dyma gerdd a afaelodd ynof oherwydd bod iddi naws wahanol i'r arfer yn y ffordd y mae Waldo yn ei fynegi ei hun ynddi. Yn ôl Dafydd Owen, ceir ynddi '[dd]weud llinellog, moel, fel lleferydd un sydd â'i dristwch yn llawer rhy ddwfn i addurn na huotledd geiriol.'[74] Cytunaf â'r dyfyniad hwn. Mae'r mynegiant yn gras ac yn llawn delweddau trwm. Mynegiant

---

[73] Williams, W. (2010). *Dail Pren*. 2il arg. Gwasg Gomer: Llandysul. (t.69)
[74] Owen, D. (1972). *Dal Pridd y Dail Pren*. Christopher Davies: Llandybïe. (t.82)

pytiog sydd yma, nid rhythmau arferol Waldo, '(r)huthmau dwyster nid dawnsio'[75] a hynny o'r dechrau un, gyda defnydd cyson o atalnodau llawn yn y gerdd yn torri ar lif y llinellau. Yn wir, unwaith yn unig y ceir llinell yn goferu i'r llinell nesaf heb unrhyw atalnodi. Dyma fynd ati i drafod y gerdd mewn manylder.

Egyr y gerdd gyda berf ddangosol a delwedd bendant: 'Dyma gyrff plant.' Dilynir hyn gan ddatganiad moel: 'Buont farw yn nechrau'r nos.' Mynegiant tebyg i ohebydd sydd yma, nid bardd. Mewn cyfnod o newyn eithafol yn ystod erchyllterau'r Ail Ryfel Byd,[76] '(c)awsant gerrig yn lle bara, yn syth o'r ffyn tafl.' Nid maeth, ond marwolaeth a oedd yn disgwyl y plant hyn. (Nodwyd, mewn trafodaethau eisoes, y gyfeiriadaeth grefyddol sydd yn y llinell hon, sef at Mathew 7:9.[77] )

Llinell graffig ac ysgytwol o grotesg ydyw 'Ni chawsant gysgod gwal nes gorwedd yn gyrff.' Cysgod sydd yma, ond cysgod marwolaeth ydyw, sydd yn dangos dawn y bardd i lunio cyferbyniad modernaidd o safon. Darlunnir erchyllter y sefyllfa wrth i'r bomiau (neu'r 'cerrig') ddinistrio bywydau'r plant. Effeithiol yw defnydd y bardd o ailadrodd ar ddechrau llinellau 4 a 5. Ailadroddir y ferf yn y gorffennol 'Methodd', ynghyd â delwedd yr haul:

> **Methodd yr haul** o'r wybr â rhoddi iddynt ei wres,
> **Methodd** hithau, eu pennaf **haul**, a'i chusan a'i chofl

Cawn ddelwedd o oerni a thywyllwch yn y ddwy linell uchod. Haul llythrennol sydd yma, ond y mae'r bardd yn personoli'r haul hwn hefyd trwy'r gweithredoedd mamol, megis cusan

[75] Owen, D. (1972). *Dal Pridd y Dail Pren*. Christopher Davies: Llandybïe. (t.82)
[76] Llwyd, A. (2014). *Waldo - Cofiant Waldo Williams: 1904-1971*. Y Lolfa: Talybont. (t.271) – "Pryder Waldo am blant yn newynu i farwolaeth oherwydd y rhyfel sydd y tu ôl i'r gerdd hon."
[77] Elis Thomas, D. (1981). Waldo. Yn: Rhys, R. (gol). *Cyfres y Meistri 2: Waldo Williams*. Christopher Davies: Llandybïe. (t.281)

a choflaid – gweithredodd mamol nad ydynt yn bresennol yma, ac amddifad ydyw'r plant yng ngwacter eu marwolaeth.

Gwelir delwedd y cerrig eto yn llinell olaf y pennill, a chyflwyna'r bardd ddelwedd newydd hefyd: y sarff. Dyma ddelwedd sydd yn perthyn i'r 'traddodiad apocalyptaidd' yn ôl Ned Thomas.[78] Un o ddelweddau uffern ydyw'r 'sarff', a delwedd o orthrwm y pwerau cas ydyw i Waldo. Nid yn y gerdd hon yn unig y gwelir symbol y sarff ym marddoniaeth Waldo. (Gweler y gerdd 'Adnabod' y cyfeiriwyd ati uchod yn yr adran 'Undod thematig'.) Chwithig ydyw'r arddull fodernaidd, foel hon. Ni cheir un ansoddair o bwys ymhlith y pennill cyntaf. 'Yn y ffeithiau, yn y pethau, wele'r trychineb' chwedl Saunders Lewis.[79] Yn y gerdd hon, yn fy marn i, y mae atgasedd y bardd at y sefyllfa yn trechu'r elfen artistig sydd yn nodweddu canran uchel o'i gerddi, a grym y profiad yn pwyso'n ormodol arno wrth gyfansoddi.

Apelio'n bersonol ac yn uniongyrchol at y darllenydd a wna Waldo ar ddechrau'r ail bennill trwy gyfrwng ailadrodd y ferf orchmynnol, 'Gwelwch':

> **Gwelwch** fel y mae pob ystlys yn llawer rhwgn;
> **Gwelwch** feined eu cluniau a'u penliniau mor fawr

Iasol ydyw'r ail linell yn benodol, a hithau'n delweddu sut y mae cyrff y plant wedi'u hanffurfio oherwydd newyn – yr ymchwyddo a'r cilio. Anffurfiwyd eu meddyliau hefyd. Plant yn llawn dryswch ydynt wrth iddynt fethu â deall eu newyn. Nid oes hyd yn oed frechdan ar gael i'w bwyta.

Ceir cyferbyniad cryf arall ym mhedwaredd llinell y pennill: 'Aeth pylni eu trem yn fin i'r fron roesai'i sugn.' Gwendid corfforol y cymeriadau sydd yma: y plant a'r mamau. Mae gwendid y plant ym mhylni eu golwg mor llethol nes ei fod yn trywanu, ac yn chwalu, ysbryd

---

[78] Thomas, N. (1985). *Llên y Llenor: Waldo.* Gwasg Pantycelyn: Caernarfon. (t.17)
[79] Lewis, S. (1981). Dail Pren. Yn: Rhys, R. (gol). *Cyfres y Meistri 2: Waldo Williams*. Christopher Davies: Llandybïe. (t.267)

y mamau. Nid ydyw'r mamau'n medru trosglwyddo'r maeth angenrheidiol oherwydd eu gwendid eu hunain. Ac nid oes lleddfu poen y plant na'u tawelu trwy hwyangerddi'r mamau oherwydd ni allant ddianc rhag dinistr 'brath anweledig y sarff'.

Gorffenna'r pennill gyda datganiad trawiadol arall: 'Buont farw mewn siom.' Mynegi ei ddicter tuag at y wladwriaeth y mae'r bardd yn y datganiad hwn. Dyma siom y trais a'r rhyfela a derfynodd yr holl fywydau dieuog yn y gwledydd hyn. Cytunaf â geiriau R. Geraint Gruffydd: 'fe fu'n amheus o'r wladwriaeth ac yn barod i'w herio pan farnai fod rhaid.'[80] Gwnaeth hynny mewn modd arbennig o drawiadol yn y gerdd hon.

Tri gosodiad, tair brawddeg fer, sy'n crynhoi un ddelwedd ydyw llinell gyntaf y pennill olaf: 'Dyma gyrff y plant. Gwyn a du a melyn. Mae myrdd.' Ailadrodd gosodiad agoriadol y gerdd a wna'r bardd yma, cyn manylu ar ddelwedd y plant. Roedd plant o bob cefndir a hil yn dioddef yn ystod y rhyfel, a delweddir hynny yn dra effeithiol yma drwy gyfrwng rhythm y geiriau unsill a'r cyflythreniad rhwng 'melyn' a 'myrdd'.

Cawn awgrym o faint yr argyfwng yn yr ail linell: 'Llithra'r cawr gorffwyll yn sarffaidd heb si, i bob gwlad.' Cyferbyniad grymus arall sydd yma rhwng trybestod y 'cawr gorffwyll' a thawelwch cyfrwys y sarff. Disgwylir i gawr symud yn swnllyd, gan weiddi, sgrechain neu chwyrnu, ond 'llithro' ydyw'r berfenw sarffaidd a ddewisodd y bardd. Llithro 'heb si, i bob gwlad' a wna'r cawr hwn, yr unigolion hynny neu'r carfannau sy'n dod i rym gan achosi trais a dinistr mewn amryw wledydd, y gwladwriaethau gormesol.

Ac ym mhle bynnag y bwria'r cawr sarffaidd hwn ei gysgod 'rhed rhyndod trwy'r awyr'. Sŵn yr awyrennau, y bomiau, y ffrwydradau a'r gynnau sydd yma ac yn ysgwyd nid dim ond y ddaear, ond yr awyr hefyd. Cwestiynu, yn hytrach na dweud, a wna'r bardd yn y bedwaredd

[80] Geraint Gruffydd, R. (1997). Waldo Williams. Yn: Rhys, R. (gol.) *Y Patrwm Amryliw – Cyfrol 1*. Cyhoeddiadau Barddas: Llandybie. (t.201)

linell: ‘O, gan bwy cafodd hwn hawl ar y ddaear werdd?’. Delfryd Waldo o’r byd ydyw’r ‘ddaear werdd’ lle mae natur a dyn a’i gyd-ddyn yn un â’i gilydd. Ond, oherwydd y cawr, y mae’r byd hwnnw mewn perygl o wir ddinistr.

Cynigia Dafydd Owen ateb i gwestiwn Waldo gan ddweud mai ‘yr hunanoldeb a dry’n ffurf ar wallgofrwydd yn hanes pob dyn’ ydyw’r cawr.[81] Beirniadaeth arall ar arweinwyr hunanol y byd ydyw hon, pobl y ‘Rhaid! Rhaid!’, arweinwyr barus sydd am ddinistrio eraill er eu budd hwy eu hun. Mae’r thema hon yn un oesol, ond y mae’n berthnasol iawn i wleidyddiaeth y byd cyfoes yn sgil dyfodiad ac amlygrwydd nifer o arweinwyr unben ar draws y byd, megis Vladimir Putin, Bashar al-Assad a mwy. Atgyfnerthir y feirniadaeth hon yn llinell olaf y gerdd: ‘Gwae bawb sydd yn ffaglu’r seren sy’n damnio’r ddaear.’

Cywilyddia Waldo yr arweinwyr hynny sydd yn tanio ac yn cynnal ‘seren pob gwallgof’. Y gynhaliaeth hon a fydd yn esgor ar dranc y ddaear. Dyma fynegiant hallt, grymus sydd mor berthnasol heddiw ag erioed gyda'r byd tan gysgod parhaus trais a rhyfel, yn enwedig wrth ystyried cyfundrefnau’r arweinwyr uchod, heb sôn am Kim Jong Un a’r Arlywydd Trump.

Cerdd wahanol iawn ei naws ydyw hon, ond gwelir yn glir ynddi genhadaeth Waldo, yn y delweddau a’r datganiadau ysgytwol sydd yn y gerdd. Erys yn ffyddlon i’w themâu a’r delweddau apocalyptaidd trwy’r gerdd hefyd, a cheir undod trwy gyfrwng yr enghreifftiau o ailadrodd yn y gerdd. Oherwydd hyn, cerdd o’r radd uchaf ydyw yn fy marn i.

### 1.4. Casgliad

Yng ngeiriau Euros Bowen, ‘[b]raint geiriau yw barddoniaeth, ac ni ellir llai nag ymglywed â’r fraint hon ar y Gymraeg wrth ddarllen cerddi’r gyfrol hon. Mae yma angerdd ar awen a’i

[81] Owen, D. (1972). *Dal Pridd y Dail Pren*. Christopher Davies: Llandybïe. (t.82)

chelfyddyd.'[82] Dyma'r beirniad yn gweld dwy elfen y meddyliwr a'r celfyddwr wedi'u cyd-blethu ym marddoniaeth Waldo, a hynny'n cyfrannu'n fawr tuag at safon y gyfrol. Dengys y bennod hon fod Waldo wedi llwyddo i drosglwyddo ei weledigaeth gadarn trwy gyfrwng cerddi sydd yn meddu ar syniadaeth glir ac arddull grefftus. Yr oedd ei waith fel 'meddyliwr' yn hapus yn llaw'r 'celfyddwr' o safon uchel iawn, a dyna sy'n esbonio hirhoedledd ei waith, mi gredaf.

Wrth ddychwelyd at eiriau Mererid Hopwood ar ddechrau'r bennod, gwelwyd nifer o'r labeli a roddwyd ar Waldo ar hyd y blynyddoedd yn ymddangos o fewn fy nhrafodaeth. Gwelwyd ei gymeriad yn troi o'r rhamantydd i'r modernydd wrth i'w ganu a'i grefft aeddfedu. Anodd meddwl i'r un bardd gyfansoddi 'Cofio' ac 'Y Plant Marw' gan mor wahanol yw'r mynegiant. O ran y weledigaeth, teg ydyw dweud nad thema yn unig yw brawdoliaeth yn ei waith; saif fel cred ganolog i'r bardd ar hyd ei fywyd yn unol â'i ddysgeidiaeth grefyddol ef a'i weithredoedd heddychol. Glynodd wrth y credoau hyn ar hyd ei oes, nid yn unig wrth iddo fyw ei fywyd bob dydd, ond wrth ganu.

I gloi, felly, yn dilyn astudio'r gyfrol, cytunaf yn gryf â geiriau R. Geraint Gruffydd sef mai'r 'dyrnaid cerddi hyn yw cyfraniad unigryw Waldo Williams i farddoniaeth Gymraeg ac sy'n ei osod yn ddigamsyniol ymhlith y mawrion.'[83] Y mae *Dail Pren* wedi ennill statws cwltaidd ym meddwl beirdd, beirniaid a darllenwyr, ac yn fy marn i, bydd yn dal i wefreiddio cynulleidfaoedd am flynyddoedd eto oherwydd cyfuniad y gyfrol o fynegiant diffuant, dyfnder crefft a gweledigaeth grymus ac oesol.

---

[82] Bowen, E. (1981). Dail Pren. Cerddi gan Waldo Williams. Yn: Rhys, R. (gol.) *Cyfres y Meistri (2): Waldo Williams*. Christopher Davies: Llandybïe. (t.293)

[83] Geraint Gruffydd, R. (1997). Waldo Williams. Yn: Rhys, R. (gol.) *Y Patrwm Amryliw – Cyfrol 1*. Cyhoeddiadau Barddas: Llandybïe. (t.208)

**Ffolio o gerddi gwreiddiol**

# ‘MYFYRIO A CHREU’

## Rhagair

Lluniwyd y casgliad hwn o gerddi ar hyd fy nghyfnod astudio. Casgliad o gerddi amrywiol ydyw yn ymateb i amrywiaeth o brofiadau ac atgofion, gan ddwyn y teitl 'Myfyrio a Chreu'. Dewisais y teitl hwn oherwydd rhoddais flaenoriaeth i ddatblygu'r patrwm yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, patrwm y 'meddyliwr' a'r 'crefftwr'. Wrth feddwl a myfyrio'n ddwys dros destun posib, ceisiais ddatblygu fy nghrefft, ei grymuso, gan geisio trosglwyddo fy ngweledigaeth a'm neges yn fwy effeithiol. Dyma un o'r nifer o elfennau y dysgais i'w gwerthfawrogi wrth astudio barddoniaeth Waldo Williams. Gobeithiaf fod y cerddi yn glir o ran eu cenhadaeth ac yn ddiffuant wrth ystyried eu crefft.

Fy mhrif ysgogiad wrth lunio'r cerddi hyn oedd creu casgliad a fydd yn graidd i gyfrol mwy estynedig yn y dyfodol. Cynhwysir tri deg o gerddi yn y ffolio. Lluniwyd mwy na'r nifer derfynol hon, ond nid oedd pob cerdd yn ddigon safonol i'w cynnwys yn y ffolio oherwydd diffyg dyfnder o ran crefft, mynegiant diffygiol neu weledigaeth aneglur. Elfen arall yr wyf wedi'i datblygu yw fy ngallu i adfyfyrio ar fy ngherddi gan ymateb yn ogystal i adborth adeiladol gan eraill. Ail-weithiwyd sawl cerdd wedi imi gyflwyno drafftiau i'm tiwtoriaid, a gwelwyd gwellhad o ran eu safon wedi imi eu diwygio a'u hail-gyflwyno.

Casgliad amrywiol ydyw hwn sydd yn trafod nifer o bynciau a themâu. Ceir cerddi sydd yn dathlu ac eraill yn galaru, cerddi telynegol a cherddi mwy modernaidd, a cherddi ysgafn ochr yn ochr â cherddi dwys. Ceir cerddi sydd yn ymateb i sefyllfaoedd cymdeithasol y byd o'm cwmpas, yn ogystal â cherddi mwy personol eu naws wrth imi fyfyrio ar fy mywyd hyd at heddiw. Drwy gyfrwng yr ymchwil, deuthum i werthfawrogi bod amrywiaeth yn nodwedd bwysig mewn cyfrol o farddoniaeth.

Dilynais strwythur pendant wrth drefnu'r cerddi er mwyn hwyluso'r broses o'u darllen. Egyr y casgliad gyda'r gerdd hiraf a luniais yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, sef 'Cywilydd'.

Cerdd benrhydd ydyw yn ymateb i'r profiad o fynd i weld gwaith yr artist 'Banksy' a ymddangosodd ym Mhort Talbot yn Chwefror 2019, a daeth y gerdd yn agos at y brig yng nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd y flwyddyn honno.

Yn dilyn y gerdd honno, ceir adran o gerddi caeth mewn cynghanedd gyflawn. Yn gyntaf, ceir dau gywydd. Mae'r cyntaf, 'I Gofio Cylch Meithrin Yr Hendy' yn bersonol iawn ac yn dwyn i gof leoliad pwysig iawn yn fy mhlentyndod. Mae'r llall. 'Y Gymraeg – marw yw hi?!' yn cyfarch ac yn dathlu llwyddiant ysgubol disgybl ysgol wrth ddysgu'r Gymraeg. Dilynir y rheini gan gasgliad o englynion unigol sy'n perthyn i Abertawe wrth imi gyfarch unigolion a chofnodi digwyddiadau pwysig o'r ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r ddau englyn olaf, 'Gareth Bale' a 'Manchester United', yn fwy ysgafn ac yn perthyn i fyd pêl-droed.

Cerddi penrhydd ydyw gweddill y gyfrol, ond maent yn amrywiol o ran eu themâu a'u cynnwys. Cerddi sydd yn perthyn i'm teulu yw 'Mwyara', 'Perthyn', 'Teledu Sky', 'Haul' ac 'O'r dyfnderoedd'. Dilynir y rheini gan dair cerdd am Gymru a'r Gymraeg, sef 'Gwawr', 'Murlun' a 'Protest'. Dwy gerdd arall am fy mhrofiadau o ddwy wedd dinas Abertawe ydyw 'O Singleton i SA1' a 'Henaint'. Y naill yn rhamantu am fy nghyfnod ger y bae yn ardal y Mwmbwls, a'r llall yn ymateb i hagrwch canol y ddinas. Lluniwyd y ddwy gerdd 'Gwaddodion' a 'Crwydro' pan oeddwn ar wyliau yn Sbaen yn ystod haf 2019.

Cerddi am amrywiaeth o bynciau sydd yn cloi'r gyfrol hefyd, o ddathlu llwyddiant ymgyrch elusennol yn y gerdd 'Copaon', damwain car yn fy mhentref lleol yn 'Yr afon', mawredd y gofod yn 'Yr ehangder uwch fy mhen' i'r profiad o ddioddef 'writer's block' yn y gerdd ysgafn 'Y broses o ffaelu ysgrifennu cerdd'.

Fel y soniais yn flaenorol, fy ngobaith yw y bydd y cerddi hyn yn gweld mwy o olau dydd mewn cyfrol estynedig yn y dyfodol, ond gobeithiaf y bydd y sawl sydd yn eu darllen mewn perthynas â'r traethawd ymchwil hwn yn medru eu mwynhau a gweld yma egin bardd o leiaf.

**Cynnwys** **Tudalen**

Cywilydd .......... **63**

**Cerddi Cynganeddol .......... 67-75**

I Gofio Cylch Meithrin Yr Hendy .......... 67

Y Gymraeg – marw yw hi?! .......... 68

Ton .......... 69

24.6.2018 .......... 70

Canmlwyddiant Prifysgol Abertawe .......... 71

I Gymdeithas Ysgrifennu Creadigol Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe .......... 72

Parcio .......... 73

Gareth Bale .......... 74

Manchester United .......... 75

**Cerddi Penrhydd .......... 76-96**

Mwyara .......... 76

Perthyn .......... 77

Teledu Sky .......... 78

Haul .......... 79

O'r dyfnderoedd .......... 80

Gwawr .......... 81

Murlun .......... 82

Protest .......... 83

O Singleton i SA1 .......... 84

Henaint .......... 85

Gwaddodion .......... 86

Crwydro .......... 87

Copaon .......... 88

Eiliad .......... 90

Yr afon .......... 92
Yr ehangder mawr uwch fy mhen .......... 93
Dwy galon yw fy nghorff .......... 94
Portread o fardd .......... 95
Y broses o ffaelu ’sgrifennu cerdd .......... 96

## Cywilydd

***'Sixteen per cent of Port Talbot's children live in dire poverty. Not genteel, cost-of-living poverty, but scary, damp, asthmatic, food-bank, lucky-to-get-to-adulthood poverty.'* –** Allison Pearson '*Closing Port Talbot makes economic sense – but the heart says no'* (5/4/2016)

*Dere 'da fi fy machgen*

*ac mi rof i ti lais,*

*rhof fy ngeiriau'n anrheg*

*i ti gael dweud dy stori...*

*        *        *

Fe'th welais di, y bore hwnnw,

yn chwarae tan gawod o lwch

y tu cefn i un o'r garejys

ar gyrion un o 'stadau'r dref.

Es atat, gan estyn fy ffôn fel gwn

o'm poced, ac mi dynnais dy lun.

Dim ond fi oedd yno

i gadw cwmni i ti y bore hwnnw;

ymlwybrodd dau gerddwr heibio

ond ufuddhau'n driw i'w cŵn yr oeddent

heb godi eu llygaid i dy gyfarch di,

ac mae pawb arall hefyd, erbyn hyn,

wedi troi'u cefnau arnat,

y dorf ond yn farworyn o atgof pell.

Oedais, gan sylwi fy mod i, fel pawb arall,

yn troi ymaith oddi wrthot
gan dy adael yn amddifad unwaith eto.

*          *          *

Fe'th welais di droeon cyn dod i'th weld:

fisoedd yn ôl,
bu dy wyneb yn boddi ffrydiau fy rhithfyd
pan ddest ti gyntaf i'n byd,
ac rwy'n cofio dy weld yn hawlio dy le
yng nghanol fy sgrin deledu
yn wystl i fflachiadau'r *paparazzi* o dorf,
wedi dy ddal fel cleren
yng ngwe'r criwiau newyddion;

fe hawliaist dy le hefyd ar sgriniau'r byd:
Llundain, Efrog Newydd, Tokyo;

buost yn byw'n gyfoethog am sbel fach
a'r byd i gyd yn dy nabod am wincied,
ond fe droeon nhw eu llygaid oddi wrthot
gan dy adael di i encilio'n dy ôl
i fygdarth dy filltir sgwâr.

Ond, fe welaf fi tu hwnt i'r dagrau amryliw
a roddodd fod i ti yma
ryw fin nos Nadoligaidd...

*          *          *

Ni wn beth yw dy stori di...

ond mi wn am gymaint sydd, fel ti,
yn rhygnu byw tu hwnt i lygaid y byd
mewn hen gilfach gefn
ar ryw ’stad anghofiedig,
a thlodi’n gwthio’i hun dros bob stepen ddrws;

yn byw o hyd yng nghysgod y Gwaith
sy’n chwydu’i wenwyn i enau’r plant,
a chewri’r tyrrau sy’n goruchwylio’r dref,
ac nid oes dianc rhag y bwystfil hwn
a weldiodd, ers degawdau,
fywydau’r tylwythau hyn ynghyd;

yn byw oddi ar friwsion gwlad
fel llwynogod ganol nos,
ac yn cynilo ceiniogau fel darnau aur
cyn gwario’u calonnau ar ddognau bywyd
a’u hel i waelodion eu bagiau plastig.

*  *  *

*Dere was, mi dynnaf di o’r maen*
*i ti gael byw tu hwnt i’r Gwaith,*
*i ti gael paentio olion dy draed*
*ar gynfas y byd.*

*Dere ’da fi yn awr fy machgen*
*ac mi rof i ti lais,*

*rhof fy ngeiriau'n anrheg*
*i ti gael dweud dy stori,*

*a gyda'n gilydd,*
*fe daflwn ni hi tua mynwes y cymylau*
*gan adael i'r gwynt ei chario ymaith*
*yng nghlydwch ei gôl.*

## I Gofio Cylch Meithrin Yr Hendy

*Cyn imi fynychu'r cylch yma, roedd yr adeilad yn gartref i Aelwyd Yr Urdd y pentref, ac yr oedd yn gadarnle i'r Cymry Cymraeg lleol.*

Aeth yr iaith heibio'i throthwy,
a chwerthin y meithrin mwy,
a'r Gymraeg â'i miri hi
yn fud, heb atgyfodi,
a di-raen yw'r pedair wal
yn hun fy neuadd anial.

Yma, bu oes o groeso.
Hwb i'r iaith, cadarnle bro,
ein credo a'n caer ydoedd,
a thŷ ein treftadaeth oedd.
Yn wir annedd i'r heniaith,
mur oedd ym mwrlwm yr iaith.

Hir yw loes y ffarwél hon,
fy aelwyd sy'n adfeilion.
Rhiniog fy mabinogi,
a dôr fy mhlentyndod i
oedd hon, ond annedwydd wyf;
o hyd galarus ydwyf.

## Y Gymraeg – marw yw hi?!

*I gyfarch Adam Williams ar fod y cyntaf i ennill Medal Goffa Bobi Jones i ddysgwyr Bl.10 ac o dan 19 oed yn Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd 2019. Mae Adam, a oedd bryd hynny'n ddisgybl yn Ysgol Cil-y-Coed yn Sir Fynwy, yn awr yn astudio ym Mhrifysgol Abertawe.*

Y Gymraeg – marw yw hi?!
Nid yw hyn ond dadeni!

Der' draw i Abertawe
yn dân 'r hyd hewlydd y De!
Hwyrach, y Gŵyr sy'n d'aros,
a holl liwiau'r bae, heb os!
Bydd dwy iaith i dy daith di,
der' â'th stŵr, der' â'th stori!
Ti yw'r iaith uwch y traethau,
ti yw mur ein bur hoff bau.

Wyt barod! Wyt warchodwr!
Wyt yn deyrn! Wyt un o dŵr!
Wyt yn brin! Wyt un â bri!
'N ôl i bobol fel Bobi!
Y gwir yw nad dysgwr wyt:
na, Adam, medrwr ydwyt!

## Ton

*i Aneirin Karadog wrth iddo symud am gyfnod i fyw yn Llydaw. Hwn oedd englyn arobryn yr Eisteddfod Ryng-golegol yn 2019.*

I’r heulwen yr â eilwaith; – i’w dir hud

y rhed yn llawn gobaith;

i’w hen fro’n ferw ei iaith;

i’w febyd, at ei fabiaith.

## 24.6.2018

*Pleidleisiodd myfyrwyr Prifysgol Abertawe dros droi rôl Swyddog yr Iaith Gymraeg o fod yn un rhan-amser i fod yn un llawn amser.*

Yn gytûn, gwnawn nawr ddymuno ei gweld
hyd gaer Hywel eto.
Trwy'r iaith, eilwaith, gwnawn hawlio
hen dân ei ddyhead o.

## Canmlwyddiant Prifysgol Abertawe

*Mae Prifysgol Abertawe yn dathlu ei chanmlwyddiant: 1920-2020. Dyma englyn i nodi'r garreg filltir hon!*

Ger y llif, cei ganrif o go' – 'n y dwfn;
y mae dysg yn brigo,
a gwêl ganmlwydd o lwyddo
yn gyrru'i ôl 'r hyd y gro.

## I Gymdeithas Ysgrifennu Creadigol Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe

Hon, y galon lawn golud, – a rannwn
trwy'r heniaith, a'n hunfryd
yw heulwen Awen; ennyd
un criw bach yn creu eu byd.

## ‘Parcio’

*I longyfarch fy nhiwtor ym Mhrifysgol Abertawe, Yr Athro-Brifardd Tudur Hallam, ar gyhoeddi ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth, ‘Parcio’.*

Wyt fonedd y cynganeddion – wyt deyrn,

rhoist aur mewn acenion!

Dalennau, geiriau’n goron,

rîl o aur yw’r gyfrol hon.

## Gareth Bale

Un heb ofn wrth drin y bêl, – un â’i droed
sydd yn driw ei annel,
un llew gwych â’i ru uchel,
heb ei ail yw’n Gareth Bale.

## Manchester United

*I'm hoff dîm pêl-droed*

Trwy'r amheuon, wyf ffyddlonwr; wyf waedd,
wyf fur o gefnogwr;
wyf ffyrnig ac unig ŵr;
yn hyn oll, wyf enillwr.

## Mwyara

*Cofio mynd i bigo mwyar droeon gyda fy Nhad-cu yn ystod wythnosau olaf gwyliau'r haf.*

Gwisgem yr heulwen amdanom ni'n dau
fel hen bâr o'th *overalls* piws,
cyn straffaglu i dynnu'n *wellies* am ein traed
a'r rwber yn brandio'i flas ar gledrau ein dwylo.

Anelem at y caeau corsiog, dros y rheilffordd
a red fel gwythïen trwy eu canol,
a'th ffon yn guriad calon ar hyd dy daith herciog
wrth imi ddartio fel gwenynen o'th gwmpas.

Ac yno y byddit wedyn, fel capten yn hel ei drysor,
yn dy daflu dy hun i galon y llwyni
lle safai'r gemau duon yng nghrafangau'r drain,
chwipit y drain gan eu dal yn wystlon ar lawr,
ac ildient eu gemau i ti eu plicio o'u gafael
a'u taflu'n awchus i gist dy golandr.

Crwydrem ymaith tua'r caeau pellaf
lle'r oedd y llwyni haeliaf yn rhannu'u cyfoeth,
cyn ymlwybro adre' â'n bodiau fel darnau glo,
a minnau'n gwisgo minlliw o borffor crand.

## Perthyn

*Bu farw fy Mam-gu, Mariel Tucker, ym mis Rhagfyr 1991, bron iawn i bum mlynedd cyn imi gael fy ngeni.*

Cymeriad mewn straeon wyt ti i mi,
yn cuddio ymhlith y sgyrsiau,
yn y mudandod a ddaw rhyngddynt.

Delw wyt, wedi dy rewi'n wên
mewn hen albwm teulu
sy'n llechu ar waelod un o ddroriau'r tŷ.

Fe'th grafwyd di, fesul llythyren,
ar sgwaryn o farmor yn y fynwent leol
cyn imi ddyfod i'r byd.

Ni theimlais wres dy gariad,
y cwtsho, y maldoldi na'r cusanu;
na chlywed dy lais yn sisial imi
hwiangerddi fy mhlentyndod.

Ond, y mae rhan ohonot
yn bod ynof innau,
rhan na ddygwyd,

oherwydd fe welaf fi fy hun
yng nglesni gwyrdd dy lygaid di.

## Teledu Sky

*Dwyn i gof cael gwylio teledu Sky yn nhŷ Dats*

Rwy'n cofio fy hun yn rhyfeddu
wrth ffrwydro trwy'r drws blaen,
a thaflu fy hun fel clustog ar y soffa
a oedd agosaf i'r ffenestr.

Taniwn y rheolwr o bell.
Beth oedd y wyrth hon o fewn fy nwrn?
Fel datgloi cist o drysorau'r byd,
y gist nad oedd mo gwaelod iddi.

Rwy'n cofio diogi am oriau ar y soffa,
ac rwy'n cofio bwyta afalau â'r croen
wedi'u pilio, a chreision *Salt n' Shake*,
a sglodion a goginiwyd yn y *George Foreman*.

Ac rwy'n cofio ffugio droeon
nad oeddwn yn medru cysgu
er mwyn cael un awr arall o flaen y sgrin,

un awr arall yn dy gwmni di, Dats.

Ni wyddwn bryd hynny mai prinhau
yr oedd yr oriau yng nghwmni ein gilydd,
wrth iti guddio dy boen o olwg
fy llygaid deng mlwydd oed i...

## Haul

*Er cof am Deborah Tabor, modryb fy nghariad, a fu farw o gancr yn 64 oed.*

Pefriodd ei gwên fel pelydrau'r haf,
ac fel yr haul, estynnodd ei gwres
yn goflaid amdanom, hi'r fynwes gynnes
a fu'n eiddil ei gwedd, ond cadarn ei henaid.

Pererin oedd hi, yn taenu ei goleuni
yn flanced dros strydoedd ei Jerwsalem,
hi a estynnodd ei hun yn galon atat fy Nuw.

Och fy Arglwydd! Gwisg ei henaid
yn dlws euraidd am dy wddf,
a gwisg amdani dy glogyn gwynnaf,
gwisg ei gwên yn falm amdanat,
a gwisg amdani dy adenydd.

## O’r dyfnderoedd

*Cerdd i’m dyweddi, Ebony, am ei chefnogaeth a’i hanogaeth wrth imi ddygymod â chyfnod o straen.*

Di-long oeddwn mewn trobwll o fôr
a suddo’r oeddwn i’r dyfnderoedd.
Ni welwn ond y duwch yn agosáu,
pob dafn o ddŵr yn fy nghrogi
ac yn fy nhynnu yn is, yn is...

Nes daeth un, rhyw angyles dlos,
i afael ynof, a’m tynnu,
a’m codi yn ôl tua’r goleuni,
y dafnau’n llacio,
f’anadl yn dychwelyd imi
yn ei mynwes dân,
hi a’i chalon a goeliodd ynof
wrth iddi fy llywio’n fy ôl
yn ofalus i’r lan.

## Gwawr

*Wrth weld lluniau ar Twitter o Orymdaith dros Annibyniaeth AUOB Cymru yng Nghaerdydd – 11/5/2019*

Roedd Caerdydd yn gefnfor o faneri
a'r ddraig ar ei hanterth trwy'i strydoedd hi,
a thrwy oriel y lluniau,
gwelaf fy Nghymru'n ystwyrian eto,
clywaf fy nghenedl yn bwrw ochenaid i'r gwynt
a'r Gymraeg eto'n deyrn ar y dydd.

Rhain oedd y miloedd maith,
gwreichion gwlad yn tanio'r palmentydd;
y dorf yn fflam,
a mwg annibyniaeth yn codi o'r dyfroedd
y prynhawn hwnnw.

Disgwyliaf y dydd
pan ddeffry di'n llawn o'th drwmgwsg hir
i hawlio'n ôl dy diroedd di
tan goelcerth ffyrnig dy wawr newydd.

## Murlun

*Wrth yrru i Dŷ Newydd, ces ysbaid fach ger murlun 'Cofiwch Dryweryn'.*

Ai ar hap y dewisais i fan hyn
i stopio'r car ac ymestyn fy nghoesau?

Ai'r Awen a'm gwthiodd yma
i gael rhyw fath o ysbrydoliaeth,
gan wybod fod yna her
yn fy nisgwyl i'n y Gogledd?

Ai fi sydd fod i ganu'r gerdd hon
yn ymbil arnoch i #CofioTryweryn?
Oes rhaid imi wneud hynny, ddarllenwr?

Rwyt ti'n gwybod yr hanes mae'n siŵr?
Wedi'i *Googlo* fe mae'n rhaid?

Yr helynt am y dŵr a'r boddi,
a'r lluniau o'r fynwent
sy'n dal i fodoli o dan y dŵr,
a fideos o'r teuluoedd yn protestio
cyn cael eu taflu fel gweddillion
o'u cartrefi?

Ond rwyt ti'n gwybod hynny i gyd, nag 'yt ti?

Oes angen imi ganu'r gerdd, te?

## Protest

*Mewn oes lle mae'r Gymraeg dan fygythiad cyson ar y cyfryngau cymdeithasol*

I rai, fe'n harfogwyd â bom o iaith
i'w ffrwydro'n deilchion o gytseiniaid
yn Nhir Neb ein Cymru ni!

Di-hid ydyw dyfodiad y goresgynwyr
a ddaw'n eu rhengoedd dros Glawdd Offa
i hawlio ein tai yn ddarnau o dir
â baneri Sant Siôr ynghrog uwch eu pennau,
gan hawlio ein hiaith yn wystl
i'w propaganda unplyg,
gan ein dieithrio ymhellach rhag ein henwlad
un enw, un ansoddair, un ferf ar y tro,
a chlywn chwerthin ysgafn eu gorfoledd
dros ei marwolaeth hi.

Ond, buom yma droeon o'r blaen,
megis tylwythau'r canrifoedd,
yn dyrchafu'n heniaith yn darian
rhag gorthrwm gelynion lu
a geisiodd ei diorseddu o'n palas.

Ninnau'r gwrthryfelwyr,
beiddiwn wisgo'r iaith yn lifrai amdanom,
a'i gwadnu hi i strydoedd y gad yn gyd-Gymry,
yn un gefnfor o dafodau dreigiau
â'r iaith, eto, yn esgyn fry rhag llwch yr ogofâu.

## O Singleton i SA1

*Myfyrdod ar symudiad f'astudiaethau o gampws Singleton, Prifysgol Abertawe ger y Mwmbwls, i gampws SA1, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wrth imi ddechrau Cwrs TAR Uwchradd Cymraeg.*

Ar ddiwrnod digon braf, daliaf i weld y Mwmbwls
yn llechu'n y pellter, yn fy ngwahodd yn ôl
at odidowgrwydd ei glannau.

'Ryw ddydd, mae'n siŵr' dywedaf fi,
ond wedi meddwl, nid yn fuan.

Dwi'n y Marina nawr, ymysg ei chychod crand hi
a'i chraeniau rhydlyd, ac atgofion am goedydd
Singleton a gronynnau euraidd y bae
yn llithro'n eu hôl i gefn f'ymennydd.

Sŵn drilio a tharmacio sydd i'w glywed yn awr,
nid sisial ling di long y môr.
Ryw ffordd, roedd amser yn arafach draw yn Singleton,
a bywyd, heb ei ddechrau, yn werth ei fyw.

## Henaint

*Wrth gerdded ar hyd High Street, Abertawe – 1/5/2019*

Hen fenyw yw hon, wedi profi holl aur ei bywyd,
yn dal i freuddwydio am ramant ei hieuenctid,
yn dal i balu'n ddwfn i balet ei cholur
i blastro gorchudd ar ffaeleddau ei henaint.

Rwy'n gweld sgaffaldwaith wedi'i lusgo'n
fasgara metelaidd amdani, a thafarnau
wedi'u crafu'n finlliw ar hyd eu gwefusau,
a gwelaf sglein orielau celf a siopau coffi
wedi'u gwisgo'n dlysau am ei chlustiau.

Ei hen groen yn staenedig
a phosteri'n hongian arni yn grychau llipa,
a'i phersawr sy'n llosgi fy ffroenau
yn gymysgwch o arogl sigaréts a *spliffs*,

a gwyliaf weddillion y noson gynt,
sgrapiau McDonalds a chaniau Coke,
yn chwythu'n flewiach blêr ar hyd ei chorff.

## Gwaddodion

*Playa Heliopolis, Benicassim – 17/7/19*

Fe’n gollyngwyd yma gan y llanw
yn gerigos mân, ni ein dau,
i orwedd ym min yr ewyn
megis holl waddodion y môr.

Glynwn wrth y tywod,
a gloddestwn tan gawodydd yr haul
ymysg y gweddillion eraill
sy’n leinio’r gronynnau aur.

Cawn wincied o ysbaid
i feddwi ar lesni’r awyr;
wincied o ryddid rhag y môr,
wincied rhag ei dymhestloedd ef.

Ond, fe welwn o’r pellter
y llanw’n dychwelyd,
a theimlwn grafangau’r tonnau
yn cydio ynom unwaith eto.

Cawn ein plicio o’r tywod
a’n lluchio’n ein holau i’r môr,
ni ein dau a’r gwaddodion eraill
a leiniodd y gronynnau aur.

## Crwydro

*Ym mwyty 'Playachica', Playa Els de Terrers, Benicassim – 16/7/19*

Nid oes unrhyw fath o ruthro
ar hyd strydoedd y dref hon:

neb yn gaeth i wirio oriawr
neu gwrso'n wyllt ar ôl tacsi,

dim seirenau'n sgrechian
neu gorn unrhyw gar i'w glywed.

Rhed amser yn arafach yma,
crwydra'r strydoedd yn hamddenol.

Nid yw'n tarfu, neu'n cegan ei barn,
gwylia'r dydd yn malwennu'n ei flaen.

Ac nid yw'n tarfu ar y sgwrsio a'r chwerthin
na chloncian ein gwydrau gwin gyda'r nos.

## Copaon

*Cerdd i ddathlu llwyddiant ymgyrch 'Ellie's Journey'**

Mae dy wên di uwch y copaon hyn,
ac olion dy draed wedi'u brandio
fel cwmpawdau sy'n mapio'n gywrain
draciau'r llethrau.

Troediaist farathon y llethrau
a rhoddaist dy galon gyfan i'r ymdrech
wrth fartsio, un droed ar ôl y llall,
ar hyd y llwybrau hirion.

Dringaist trwy'r niwl a'r glaw
a ddaeth i ddiffodd dy dân,
ond yn dy wên, roedd dy warchodfa
oherwydd i ti weld yr haul
yn dy aros heibio'r cymylau.

Ti, Ellie, yw brenhines y copaon.
Clywn dy ru yn atsain o'r uchelfannau,
a thân y ddraig sydd ynot
yn llosgi'n llachar ar hyd y wlad.

Cer ymaith, Ellie, i orffen dy daith
a dilynwn ninnau,
dilynwn bob cam, a phob ymdrech,
oherwydd dy wên di sydd uwch y copaon hyn.

**Mae Ellie Lewis yn ddisgybl 10 oed yn Ysgol Gynradd Yr Hendy, fy hen ysgol gynradd, ac mae hi wedi llwyddo i godi dros £4000 er lles yr ymgyrch 'Cystic Fybrosis – Better Life*

*Appeal' gan fod ei thad yn dioddef yr afiechyd creulon hwn. Fel rhan o'r ymgyrch, dringodd Ellie i gopa Pen y Fan 6 gwaith a dringodd Yr Wyddfa unwaith. Gofynnwyd imi gyfansoddi'r gerdd hon i'w darllen mewn cyngerdd i godi arian ar gyfer yr ymgyrch ac i ddathlu camp anhygoel Ellie.*

## Eiliad

*Wrth yrru adre' o Bontarddulais i Borth Tywyn – 16/6/19*

Pwy a ŵyr a anghofiaf
yr eiliad oesol honno
tua un ar ddeg o'r gloch
ar y nos Sul hwnnw?

Yr eiliad honno
pan ymrithiodd, o'r llwyni,
ryw fod o fy mlaen i,
a fflachiodd sêr ei lygaid
gan rewi Amser
yn ei hunfan,
a syllu'r oeddwn i
ar y silwét symudol hwn
ar y ffordd
ger Parc Howard.

Tynnu'r olwyn yn wyllt,
a gwyro'n lletchwith oddi wrth
y creadur cringoch hwn
a oedd wedi plymio
i fôr o friwsion.

F'anadl yn drwm
tan bwysau fy rhegfeydd,
a'm calon fel milgi
ar ras o dan fy mrest.

Llamodd hwnnw i’r palmant
ag un naid osgeiddig;
ac wrth yrru oddi yno,
daeth yr eiliad i ben
a gwelais ei gynffon
yn diflannu i’r llwyni
unwaith eto.

## Yr afon

*Afon Gwili, Yr Hendy - 13/10/2002*

Lladdwyd dau lanc mewn gwrthdrawiad
ger yr afon hon unwaith.

Chwalwyd mudandod yr oriau mân
gan sgrechian brêcs,
metel yn clatsio brics,
larwm car yn llefain marwnadau,
a dagrau o wydr yn ffrwydro’n deilchion
ar hyd y tarmac oer.

Fferrodd eu calonnau’n syth...

Codwyd tŷ o duswâu ger y bont
wedi clirio’r car y bore wedyn,
a phlannwyd croesau’n y tir gerllaw
gan ddwylo crynedig cariadon,
a nodau bychain i fagu adenydd
yng ngweddïau’r gwynt.

Heddiw, brasgama’r afon yn ei blaen
heb unrhyw gof am y bore hwnnw;
dim i’w gweld
ond am goeden gam, ffens frau,
a dau dusw bach o flodau’n pydru...

## Yr ehangder mawr uwch fy mhen

*Bae Caerfyrddin (8.8.2020)*

Daliaf fy hun yn pendroni droeon gyda'r nos
wrth syllu i'r ehangder mawr uwch fy mhen.
Pa mor bell y mae breichiau ein bydysawd yn estyn?

Clywsom ganwaith o'r blaen am goncweriaeth y ganrif ddiwethaf,
pan gylchodd Gagarin y Ddaear gan ddechrau'r ras,
ac olion Armstrong yn suddo i gramen y lleuad
cyn iddo hawlio'i thir yn wystl i'r *stars and stripes*,
Tim Peake a'i griw yn ein gwylio â gwên o bellafion yr *ISS*,
a *Space X* fel fflach o seren wib yn rhwygo llewys yr wybren
adeg un noswaith glir ar ddiwedd mis Mai eleni.

Er hynny, ni welsom ond plisgyn o'r ehangder mawr uwch fy mhen,
a'r pellter rhwng yr Haul a Neifion megis y dafn lleiaf yng nghefnfor y gofod!
Pwy a ŵyr faint yn fwy a welwn tra byddaf innau'n fyw?
Neu tra bydd fy mhlant yn fyw? Neu blant eu plant?

Daliaf i wylio'r sêr yn sgleinio megis pinnau bawd ar wal yr wybren,
a sylwi nad wyf ddim mwy na'r gronyn lleiaf ar draethau'r byd
wrth syllu i'r ehangder mawr uwch fy mhen.

## Dwy galon yw fy nghorff*

‘Dwy galon’ yw’r ‘qalbayn’ inni.
Dau ddarn yn hwylio’r môr rhuddgoch.
Wedi fy nghlymu wrth diroedd a wahanwyd gynt,
rwyf wedi ceisio ymdoddi’n drwsgl.

Mae fy ngwaed yn ffrwydrad ynof.
Yn fy nghystuddio, yn fy nadwneud, yn fy llesteirio.
Os syrthio rhwng dwy stôl a wnaf,
fe godwyd y muriau ers cryn amser.

Ond fy nghorff sy’n ddigon,
yn wytnwch tawel, yn boen sy’n ymchwyddo.
Tyf fy nghalon yn goflaid ynof,
gan wrthod cuddio yn y cysgodion.

Pa eisiau chwalu fy nghymheiriaid
neu adael i’m hofnau ddianc ar ras?
Fy nghorff sy’n cynnal fy nwy galon,
ac rwy’n naddu fy etifeddiaeth

ac yn creu lle sy’n wagle i bawb.
Safaf yn dal, codaf, anadlaf yn rhydd.
Dwy galon yn gryfder na ellir mo’u dwyn,
a chariad yn ffrwd nad yw’n dyfrhau’r byd.

**Cyfieithiad o’r gerdd ‘My body can house two hearts’ gan Hanan Issa, dynes a bardd ifanc o Gaerdydd a ddaw o dras Cymreig ac Iracaidd. Gosodwyd yr her yma gan olygyddion cylchgrawn Y Stamp ynghylch eitem newydd yn trafod cyfieithu llenyddol.*

## Portread o fardd

*Wrth gofio geiriau'r Prifardd Ceri Wyn Jones yn fy nhalwrn cyntaf a oedd yn codi arian tuag at Eisteddfod Bancffosfelen yn Hydref 2017: "chi'n gweld bod hwn yn fardd achos ma' 'da fe feiro tu ôl i'w glust!"*

Pwy yw hwn sy'n mentro'n araf tua'r meic
â'i feiro yn glyd y tu ôl i'w glust?

Minnau'r 'bardd' gyda'm beiro'n gysur
yn glynu'n annwyl at fy nghroen.

Deil hwn fy ngeiriau, cenhadaeth fy awen,
a deil yr inc fy straeon a ryddhawyd
yn ddafnau o ddelweddau ar hyd cyrsiau'r llinellau.

Llusgaf hwn ddydd a nos yn ddi-baid,
a dalen ar ôl dalen sy'n dystion
i egni'r hudlath hwn
a fyn yrru fy mysedd yn eu blaenau.

Gwêl hwn fy myw, yr adegau hynny
pan fo dagrau'n dihengyd ohonof
yn fy ngalar, yn fy nioddef;
neu pan fo enfys o wên
yn ymrithio'n ddisglair ar fy wyneb.

A hyn i gyd nes imi gyrraedd fan hyn, gerbron y meic,
gyda'm beiro'n glyd y tu ôl i'm clust.

## Y broses o ffaelu ’sgrifennu cerdd

Pan ddaw fflach o gerdd fel seren wib
i’m pryfocio, i’m gwawdio,
cyn diflannu i berfeddion Annwfn f’ymennydd,
rwy’n straffaglu am bapurach
gan geisio ymestyn breichiau fy nghof
i ddal unrhyw farworyn o’r gerdd
sy’n diffodd yn y düwch;

O! rwy’n damio’r hen Awen
sydd o hyd yn llechu yng nghorneli’r ystafell,
fel cleren na fedraf mo’i dal,
cyn hedfan ymaith tu hwnt i fy mysedd
gan fy ngadael yn unig i rythu ar wynder y welydd;

ac mae fy mhapur yn brysur foddi
tan gefnfor o sgribls du
wrth imi geisio hel trosiadau o ddim byd,
ac mae fy meiro’n tician yn fy llaw
fel hudlath sydd wedi colli’i sbarc;

ac wrth i’r niwl lenwi fy ngolwg,
ildiaf, gan afael yn fy mhapur
a’i rwygo, a’i rwygo, a’i rwygo dro ar ôl tro
nes ei daflu’n ddarnau o *gonfetti* i’r bin.

## Llyfryddiaeth

### Beirniadaeth Lenyddol


Bowen, E. (1981). Dail Pren. Cerddi gan Waldo Williams. Yn: Rhys, R. (gol.) *Cyfres y Meistri (2): Waldo Williams*. Christopher Davies. (tt.291-295)

Caerwyn Williams, J.E. (1977). Yng Nghysgod Dail Pren. Yn: Nicholas, J. (gol). *Waldo: cyfrol deyrnged i Waldo Williams*. Gwasg Gomer (tt.105-177)

Elis Thomas, D. (1981). Waldo. Yn: Rhys, R. (gol). *Cyfres y Meistri 2: Waldo Williams*. Christopher Davies. (tt.277-290)

Geraint Gruffydd, R. (1997). Waldo Williams. Yn: Rhys, R. (gol.) *Y Patrwm Amryliw – Cyfrol 1*. Cyhoeddiadau Barddas. (tt.198-213)

Geraint Gruffydd, R. (2006). 'Geneth Ifanc': Rhai Sylwadau. Yn: Walford Davies, D. a Walford Davies, J. (goln). *Cof ac arwydd: ysgrifau newydd ar Waldo Williams*. Cyhoeddiadau Barddas. (tt.136-142)

Hallam, T. (2000). 'Beth sy'n gwneud bardd yn fardd?', *Taliesin, 108*. (tt.14-28)

Hopwood, M. (2018). Pensaerniaeth Waldo. *Llên Cymru, 41*. (tt.162-183)

Jones, R.M. (2005). *Meddwl y Gynghanedd*. Cyhoeddiadau Barddas.

Jones, R.M. (2006). Waldo'r Cwymp a'r Farn. Yn: Walford Davies, D. & Walford Davies, J. (goln). *Cof ac Arwydd: Ysgrifau Newydd ar Waldo Williams*. Cyhoeddiadau Barddas. (tt.59-82)

Lewis, S. (1981). Dail Pren. Yn: Rhys, R. (gol). *Cyfres y Meistri 2: Waldo Williams*. Christopher Davies (tt.265-268)

Lewis Jones, B. (1981). Mewn Dau Gae. Yn: Rhys, R. (gol). *Cyfres y Meistri 2: Waldo Williams*. Christopher Davies. (tt.149-159)

Llwyd, A. (1997). *Y grefft o greu: ysgrifau ar feirdd a barddoniaeth*. Cyhoeddiadau Barddas.

Llwyd, A. (2007). *Anghenion y Gynghanedd*. Cyhoeddiadau Barddas

Llwyd, A. (2010). *Crefft y Gynghanedd*. Cyhoeddiadau Barddas.

Llwyd, A. (2014). *Waldo: Cofiant Waldo Williams: 1904-1971*. Y Lolfa.

Llywelyn Williams, A. (1977). Waldo Williams. Yn: Nicholas, J. (gol). *Waldo: Cyfrol deyrnged i Waldo Williams*. Llandysul (tt.99-104)

Owen, D. (1972). *Dal Pridd y Dail Pren*. Llyfrau'r Dryw.

Owen, G. (2020). Y Grefft o Dalyrna. Yn: *Dathlu'r Talwrn: Pigion ac Atgofion*. Cyhoeddiadau Barddas.

Rhys, R. (1992). Dysgu Darllen. Yn: Rowlands, J. (gol.) *Sglefrio ar Eiriau*. Gwasg Gomer.

Thomas, G. (1976). *Y Traddodiad Barddol*. Gwasg Prifysgol Cymru.

Thomas, O. (gol) (2006.). *Llenyddiaeth Mewn Theori*. Gwasg Prifysgol Cymru.

Thomas, N. (1985). *Cyfres Llên y Llenor: Waldo.* Gwasg Pantycelyn.

Walford Davies, J. (2006). 'Pa Wyrth Hen eu Perthynas?': Waldo Williams a 'Chymdeithasiad Geiriau' Yn: Walford Davies, D. a Walford Davies, J. (goln). *Cof ac arwydd: ysgrifau newydd ar Waldo Williams*. Abertawe: Cyhoeddiadau Barddas. (tt.163-211)

Williams, W. (1977). Brenhiniaeth a brawdoliaeth. Yn: Nicholas, J. (gol). (1977). *Waldo: cyfrol deyrnged i Waldo Williams*. Gwasg Gomer. (tt.267-275)

Wyn Jones, C. (2020). 40 Allan o 40: Bwrdd Anrhydeddau'r Talwrn. Yn: *Dathlu'r Talwrn: Pigion ac Atgofion*. Cyhoeddiadau Barddas: Tal-y-bont. (tt.88-93).

**Cyfrolau Barddoniaeth**

Bryn, C. (2019). *Hwn ydy'r llais, tybad?*. Cyhoeddiadau'r Stamp.

Dafydd, G. (2014). *Ni Bia'r Awyr*. Cyhoeddiadau Barddas.

Evans, A. Lewis (2016). *Llinynnau*. Cyhoeddiadau Barddas.

Griffiths, H. (2017). *Llif Coch Awst*. Cyhoeddiadau Barddas.

Hallam, T. (2019). *Parcio*. Cyhoeddiadau Barddas.

James, C. (2013). *Rhwng y Llinellau*. Cyhoeddiadau Barddas.

Karadog, A. (2016). *Bylchau*. Cyhoeddiadau Barddas.

Lewis, G. (2017). *Treiglo*. Cyhoeddiadau Barddas.

Lewis, Llŷr Gwyn. (2014). *Storm Ar Wyneb Yr Haul*. Cyhoeddiadau Barddas.

Lloyd Owen, G. (1991). *Cilmeri a Cherddi Eraill*. Gwasg Gwynedd.

Llwyd, A. (2018). *Cyrraedd a cherddi eraill*. Cyhoeddiadau Barddas.

Mair, B. (gol.) (2004). *Cerddi Sir Gâr*. Gwasg Gomer.

Muse, E.G. (2017). *Ar Ddisberod*. Cyhoeddiadau Barddas.

**Darlithoedd**

Williams, R. (2012). *Poetry and Peacemaking*

**Gwefannau**

Lewis, E., Muse, E. et al. (gol) (2019). *Cylchgrawn Y Stamp*. (ar-lein) Ar gael: https://www.ystamp.cymru/

Salisbury, E. (2019). *eurig salisbury – Cerddi/Poems*. (ar-lein) Ar gael: https://www.eurig.cymru/

**Dolen i ganlyniadau'r holiadur: https://www.surveymonkey.com/results/SM-F7MK8TKP7/**